Rhif: WG31811

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy

Mehefin 2018

© Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78903-416-5

## Tabl Cynnwys


Pennod 1: Cyflwyniad ..... 3

Y cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ..... 3

Ymateb i'r ymgynghoriad, yr adwaith ac ymgyrchoedd ..... 4

Tabl (i): Crynodeb o'r Ymgyrchoedd ..... 5

Pennod 2 - Ymatebion i'r cynigion ..... 9

Tabl (ii) - Ymateb Ydw/Nac ydw i'r cwestiynau ..... 9

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 1 – Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ..... 22

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 2 – Coedwigaeth ..... 28

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 3 –Tirweddau Dynodedig ..... 37

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Pennod 4 - Mynediad ..... 44

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 5 – Y Môr a Physgodfeydd ..... 48

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 6 – Dŵr ..... 55

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 7 – Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol ..... 59

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 8 – Rheoleiddio Mwy Craff ..... 65

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 9 –Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ..... 68

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 10 – Bywyd gwyllt ..... 70

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 11 – Asesu Cynigion Polisi ..... 77

Atodiad 1- Rhestr o sefydliadau ..... 81

## Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy, ei lansio ar 21 Mehefin a daeth i ben ar 30 Medi 2017. Cafodd yr ymgynghoriad ei anfon yn electronig at amrywiaeth eang o randdeiliaid ac roedd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

1.2 Mae'r ddogfen ymgynghori lawn – **Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy**, ar gael yma.

1.3 Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid fynegi barn am ystod eang o gynigion i lywio cyfeiriad gwaith datblygu polisi yn y dyfodol, yn benodol:

- Cyfleoedd i roi hyd yn oed fwy o rôl i'n hadnoddau naturiol er mwyn gwella effeithlonrwydd o ran adnoddau (yr economi gylchol), a chynnig atebion naturiol neu gyfleoedd economaidd newydd;
- Bod angen i reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol fod yn rhan annatod o waith datblygu polisi er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr holl fuddion gwahanol sy'n gysylltiedig â'n coedwigoedd, â mynediad i'r awyr agored ac â'n tirweddau dynodedig;
- Cyfleoedd i wella ffyrdd statudol o weithredu mewn rheoliadau ym maes cynllunio morol, pysgodfeydd, gwastraff, tynnu dŵr a draenio, ac ansawdd yr amgylchedd.
- Cyfleoedd i gyflwyno ffyrdd mwy craff o reoleiddio er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau cronnol y mae gweithgareddau risg isel yn eu cael ar yr amgylchedd yng nghyd-destun rheoli tir.

1.4 Roedd yr ymgynghoriad yn dilyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i Phapur Gwyn ategol '*Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*'[1] a'r Papur Gwyrdd '*Cynnal Cymru Fyw*[2]'. Roedd hefyd yn seiliedig ar waith ymgysylltu blaenorol â rhanddeiliaid mewn perthynas â mynediad i'r awyr agored a thirweddau dynodedig.

1.5 Yn yr ymgynghoriad ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, aed ati i ddatblygu mwy ar gyfleoedd i sicrhau bod gwaith yn y maes hwnnw'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well â'r dull a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) er mwyn gwneud y gorau o'r holl fanteision gwahanol a gynigir gan ein hadnoddau naturiol a chyfrannu at lesiant a ffyniant Cymru yn yr hirdymor.

1.6 Yn ogystal, wrth i'r DU ymadael â'r UE, roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i drafod â rhanddeiliaid a mynd ati gyda'n gilydd i nodi cyfleoedd posibl a allai liniaru'r heriau a ddaw i'n rhan wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

### Y cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

1.7 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 14 wythnos rhwng 21 Rhagfyr a 30 Medi 2017. Ategwyd yr ymarfer ymgynghori ffurfiol ysgrifenedig drwy fynd ati i drafod gyda rhanddeiliaid yng nghyfarfodydd grŵp y ford gron, a thrwy sgyrsiau gyda chynrychiolwyr y sectorau unigol.

---
[1] https://gov.wales/docs/desh/consultation/131029environment-bill-white-paper-consultation-cy.pdf
[2] http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?lang=cy

1.8 Yn ogystal, cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o weithdai i randdeiliaid ar draws Cymru. Yn eu plith yr oedd digwyddiad yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf 2017, yna'r gweithdai yn Llandudno, Aberystwyth, Caerdydd a Sir Benfro ym mis Medi 2017.

1.9 Daeth niferoedd da i'r digwyddiadau hyn, a oedd yn gyfle i randdeiliaid fynegi barn, i dynnu sylw at bryderon ac i drafod yn agored yr heriau a'r cyfleoedd a fydd yn wynebu Cymru yn y dyfodol. Roedd y digwyddiadau'n ffordd ddefnyddiol i unigolion a sefydliadau fynegi barn am ddiwygiadau posibl i ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

1.10 Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a syniadau, a chânt eu defnyddio i lywio gwaith Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd ati i ddatblygu mwy ar ei pholisïau adnoddau naturiol ac unrhyw opsiynau deddfwriaethol pellach yn y dyfodol a fydd yn ei helpu i roi'r Cynllun Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol ar waith.

## Ymateb i'r ymgynghoriad, yr adwaith ac ymgyrchoedd

1.11 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am roi o'u hamser ac am eu cyfraniad yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1.

1.12 Daeth ymatebion i law oddi wrth y sectorau a ganlyn:

- Amaethyddiaeth
- Cyrff academaidd
- Busnesau
- Coedwigaeth
- Asiantaethau'r Llywodraeth/Y Sector Cyhoeddus
- Hamdden a Thwristiaeth
- Awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a chynghorau tref
- Y cyhoedd
- Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
- Sefydliadau/Fforymau Cynrychioliadol a Rhanbarthol
- Y Trydydd Sector

1.13 Roedd modd cyflwyno ymatebion yn ddienw, heb gysylltu'r ymatebion hynny â rhanbarth daearyddol neu leoliad yn y DU. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif llethol (yn sefydliadau neu'n unigolion) a wnaeth gynnwys eu lleoliad daearyddol o Gymru.

1.14 Cofnodwyd cyfanswm o 17,391 o ymatebion i'r ymgynghoriad mewn ymateb i'r 40 cwestiwn a ofynnwyd yn ymwneud â'r 56 cynigion a gynhwyswyd; mae'r ffigur hwn yn cynnwys ymatebion oddi wrth unigolion, sefydliadau cynrychioliadol a nifer o ymgyrchoedd wedi'u trefnu. Daeth 923 o ymatebion i law oddi wrth unigolion a sefydliadau cynrychioliadol. Mae lefel yr ymateb yn dangos maint y diddordeb sydd gan randdeiliaid yng Nghymru mewn datblygu polisi. Mae rhai wedi mynegi barn mewn

ymateb i gwestiynau penodol, ac mae eraill, yn lle gwneud hynny, wedi mynegi'u safbwyntiau mewn ymateb i'r cynigion a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori.

1.15 Priodolwyd 16,468 o'r ymatebion i'r ddwy ymgyrch ar bymtheg a ddechreuwyd gan sefydliadau a grwpiau cynrychioliadol sydd o blaid neu yn erbyn rhai o'r cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'n werth nodi ein bod, yn ystod y broses dadansoddi fanwl, rydym wedi cydnabod bod rhai o'r ymatebion i'r ymgyrch hefyd wedi achub ar y cyfle i fynegi barn am gynigion eraill yn yr ymgynghoriad. Cafodd y safbwyntiau hynny hefyd eu hystyried wrth ddadansoddi'r ymatebion.

1.16 Cafodd y safbwyntiau a gyflwynwyd gan yr ymgyrchoedd i'r cynigion wedi'u trefnu eu hystyried wrth wneud y gwaith dadansoddi cychwynnol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried maint y gefnogaeth i bob ymgyrch, ynghyd â'r ymatebion unigol. Os bydd angen trafodaethau pellach, bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati, drwy weithgorau sefydledig, i barhau i drafod blaenoriaethu'r cynigion polisi, a'u cyfeiriad yn y dyfodol, gyda rhanddeiliaid.


1.17 Darperir crynodeb byr o'r ddwy ymgyrch ar bymtheg a dangosir nifer yr ymatebion i'r cyfnodion a gofnodwyd gan bob ymgyrch yn Nhabl (i).

### Tabl (i): Crynodeb o'r Ymgyrchoedd

| Ymgyrch | Cynigion | Nifer |
|---|---|---|
| Roedd ymgyrch "**Llwybrau i Gymru**" gan Gynghrair Mynediad i'r Awyr Agored (Cycling UK ac Opewn Mountain Biking) yn galw am well mynediad i'r awyr agored yng Nghymru ar gyfer cerbydau difodur. | **Mynediad**<br>Cefnogi cynnig 10 | **7,375** |
| Roedd ymgyrch gan **Mynydda Prydain** o blaid y rhan fwyaf o'r cynigion yn ymwneud â mynediad i'r awyr agored ac yn galw am god neu siarter mynediad a fyddai'n hoelio sylw ar ymddygiad cyfrifol. | **Mynediad**<br>O blaid yr holl gynigion yn ymwneud â mynediad | **141** |
| Roedd ymgyrch **Cymdeithas Ceffylau Prydain** o blaid y cynigion yn ymwneud â mynediad, gan gynnwys mwy o rannu mynediad ar gyfer ceffylau ar lwybrau troed, caniatáu ceffylau ar dir mynediad a chŵn i fod ar dennyn o hyd penodol yn agos at dda byw. | **Mynediad**<br>O blaid cynigion 10, 13, 18, 25 a 26 | **168** |
| Roedd ymgyrch gan **Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain** yn erbyn diwygio'r rhestrau o gyfyngiadau ar fynediad ac yn erbyn estyn tir mynediad, gan godi pryderon ynglŷn â gorfodi'r cynigion yn ymwneud â mynediad. | **Mynediad**<br>Yn erbyn cynigion 11, 13 ac 16 | **4** |
| Roedd ymgyrch **Beicio Prydain** o blaid beicio ar dir ac arno hawl mynediad ar droed ar hyn o bryd, ac awgrymodd y dylai fod gan bob | **Mynediad**<br>O blaid cynnig 10 | **2,726** |

| | | |
|---|---|---|
| gweithgaredd ddifodur yr hawl gyfreithiol i fynd ar dir o dan gael gafael ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. | | |
| Roedd ymgyrch gan y **Gynghrair Cefn Gwlad,** er ei bod o blaid mwy o fynediad, yn erbyn nifer o'r cynigion yn ymwneud â mynediad oherwydd eu bod yn credu y gellid cyflawni hynny drwy weithredu'r hawliau sydd ar gael eisoes. | **Mynediad**<br>Yn erbyn cynigion 10, 11, 13,14 | **1,697** |
| Roedd ymgyrch **Cymdeithas Eryri** yn pwysleisio ei bod o blaid y cynigion ar Dirweddau Dynodedig a Choedwigaeth ond bod ganddi hefyd bryderon yn eu cylch. | **Coedwigaeth**<br>Codi pryderon am y Strategaeth Goetiroedd.<br><br>**Tirweddau dynodedig**<br>Cyflwynwyd sylwadau yn erbyn cynigion 6, 7, 8 a 9 | **34** |
| Roedd yr ymgyrch gan **Canŵ Cymru** o blaid y cynigion yn ymwneud â mynediad i ddŵr. | **Mynediad**<br>O blaid yr holl gynigion yn ymwneud â mynediad | **973** |
| Roedd ymgyrch **Cyngor Ogofa Cambrian** o blaid y rhan fwyaf o'r cynigion yn ymwneud â mynediad i'r awyr agored ac roedd yn argymell y dylid cyflwyno cod ymddygiad statudol clir y byddai angen iddo gynnwys ogofa. | **Mynediad**<br>O blaid yr holl gynigion yn ymwneud â mynediad | **31** |
| Roedd ymgyrch gan **Undeb Amaethwyr Cymru** yn gwrthwynebu'r ymgynghoriad. Codwyd pryderon am gwmpas y cynigion, y methiant i gyflwyno tystiolaeth ategol ac argymhellodd y dylid rhoi'r gorau i'r cynigion. | Yn erbyn y cynigion | **95** |
| Roedd ymgyrch **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru** yn codi pryderon am gwmpas eang y cynigion yn yr ymgynghoriad. Roedd yn erbyn y cynigion ar fynediad a mesurau sylfaenol ac roedd ganddo bryderon am gynigion i newidiad Gorchmynion Diogelu Coed orchymyn - cadw coed a warchodir. | **Mynediad**<br>Yn erbyn cynigion 10, 11, 14, 16<br>**Coedwigaeth**<br>Yn erbyn cynnig 5<br>**Mesurau Sylfaenol**<br>Yn gwrthwynebu'r cynnig oherwydd y byddai'n creu haen newydd o reoleiddio | **109** |
| Roedd ymgyrch **River Access for All** o blaid nifer o'r cynigion yn ymwneud â mynediad i'r awyr agored a mynediad at ddŵr. Mynegodd bryder am faich gweinyddol posibl ar Cyfoeth Naturiol Cymru ac argymhellodd mai'r rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ddylai fod yn bennaf gyfrifol am unrhyw risg i'w hunain. | **Mynediad**<br>O blaid cynigion 10, 11, 13, 14, 15, 16 | **13** |
| Roedd ymgyrch gan **Cerddwyr Cymru** o blaid ehangu'r cynigion yn ymwneud â mynediad, gan gynnwys mynediad i'r arfordir a chlogwyni, | **Mynediad**<br>O blaid cynigion 11, 13, 20, 25, 26 | **2,409** |

| | | |
|---|---|---|
| ynghyd â chod statudol ar gyfer mynediad a mapiau wedi'u digideiddio. Nid oeddent o blaid mynd ati mewn ffordd gyffredinol i uwchraddio hawliau i bob llwybr. Roeddent yn argymell y dylid gweithredu fesul achos. | | |
| Roedd ymgyrch **Achub ein Hafonydd** yn argymell y dylid cryfhau rhwymedigaethau cyrff cyhoeddus drwy roi mwy o bwys ar nodweddion arbennig pob ardal wrth fynd ati i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, roedd yr ymgyrch yn anghytuno â'r cynnig yn ymwneud â sicrhau bod dibenion statudol tirweddau dynodedig yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'r nod hwnnw yn unig. | **Tirweddau dynodedig**<br>Yn erbyn cynnig 6<br>O blaid cynnig 7 | **71** |
| Roedd **Ymgyrch Mynediad Cynaliadwy Cymru** yn tynnu sylw at bryderon am y cynigion yn ymwneud â mynediad heb gyfyngiad i dir a dŵr. Tynnodd yr ymgyrch sylw at bryderon ynghylch y polisi mynediad agored yn yr Alban, nad oedd wedi bod heb broblemau ac y byddai polisi tebyg yn amhriodol i Gymru. | **Mynediad**<br>Yn erbyn cynnig 11, 14, 15, 16. | **32** |
| Roedd yr ymgyrch gan **Dyfroedd Cymru** o blaid y rhan fwyaf o'r cynigion yn ymwneud â mynediad ac awgrymodd ffordd hyblyg o fynd i'r afael â gwrthdaro achlysurol a lleol yn ymwneud â defnydd cyfrifol o afonydd gan grwpiau gwahanol. Roedd yr ymgyrch o blaid hwyluso cytundebau mynediad defnyddwyr. | **Mynediad**<br>O blaid yr holl gynigion<br><br>**Dŵr**<br>Yn gwrthwynebu'r cynnig 34 – hawl i ymgymerwyr carthffosiaeth ollwng i gyrsiau dŵr. | **325** |
| Roedd ymgyrch **Coed Cadw** yn gadarn o blaid y cynnig yn ymwneud â diogelu coed hynafol a mireinio Gorchmynion Diogelu Coed er mwyn gwarchod coed yn well. | **Coedwigaeth -**<br>O blaid cynnig 5 | **265** |


45%
10%
0%
6%
0%
1%
1%
0%
17%
0%
1%
1%
0%
0%
15%
2%
2%
0%
1 Llwybrau Cymru - 7,375
2 Y Gynghrair Cefn Gwlad - 1,697
3 Cymdeithas Eryri - 34
4 Canŵ Cymru - 973
5 Achub ein Hafonydd - 71
6 Mynydda Prydain - 141
7 Cymdeithas Ceffylau Prydain - 168
8 Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain - 4
9 Beicio Prydain - 2,726
10 Cyngor Ogofa Cambrian - 31
11 Undeb Amaethwyr Cymru
12 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru - 109
13 River Access for All - 13
14 Cerddwyr Cymru
15 Dyfroedd Cymru - 325
16 Coed Cadw
17 Ymgyrch Mynediad Cynaliadwy Cymru 32

## Pennod 2 - Ymatebion i'r cynigion

2.1 Eir ati yn y bennod hon i gyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn a cynnig yn yr ymgynghoriad. Maent yn cyd-fynd â'r penodau yn y ddogfen ymgynghori. Fel y nodir yn y cyflwyniad, os yw'r ymgynghoriad yn gofyn am ateb 'ie/nage', rhoddir dadansoddiad meintiol syml isod. Wedi dweud hynny, dylid nodi nad yw'n adlewyrchu cyfanswm yr ymatebwyr, ond ei fod, yn hytrach, yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiynau'n uniongyrchol, gan roi 'ie' neu 'nage' (fel yr amlinellir yn Nhabl (ii).

2.2 Mae'n yn bwysig nodi dewisodd nifer o'r ymatebwyr beidio â rhoi ateb uniongyrchol i'r cwestiynau, gan gyflwyno sylwadau yn lle hynny. Pryd bynnag yr oedd modd, cynhwyswyd y sylwadau a'r safbwyntiau yn y dadansoddiad o gwestiynau unigol hyd yn oed os nad oeddent yn cael eu cyflwyno'n benodol fel atebion i'r cwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gofyn i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu safbwyntiau; felly, mae llawer o'r dadansoddiad hwn yn ansoddol.

**Tabl (ii) - Ymateb Ydw/Nac ydw i'r cwestiynau**

### Towards the Sustainable Management of Natural Resources Promote a Circular Economy

**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n credu bod cyfleoedd eraill i integreiddio dulliau economaidd cylchol? Os ydych, nodwch enghreifftiau o unrhyw rwystrau rheoleiddiol a fyddai'n ein hatal rhag integreiddio yn hynny o beth.**

**81 cyfanswm o 108 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 70 |
|---|---|
| Anghytuno | 11 |
| Cyfanswm | 81 |

### Sicrhau atebion sy'n seiliedig ar natur

**Cwestiwn 2**

**A oes unrhyw rwystrau rheoleiddiol sy'n ein hatal rhag cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur? Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol.**

**69 cyfanswm o 91 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 51 |
|---|---|
| Anghytuno | 18 |
| Cyfanswm | 69 |

## Cefnogi marchnadoedd a dulliau arloesol newydd.

**Cwestiwn 3**

**A oes cyfleoedd posibl i gyflwyno mecanweithiau'r farchnad neu ddulliau rheoleiddio arloesol? A oes unrhyw rwystrau deddfwriaethol a fyddai'n ein hatal rhag eu gweithredu?**

82 of total 92 respondents provided an 'agree' or 'disagree' response

| Cytuno | 59 |
|---|---|
| Anghytuno | 23 |
| Cyfanswm | 82 |

## Coedwigaeth

**Cwestiwn 4**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gysoni dyletswyddau cyffredinol CNC (gan gynnwys y ddyletswydd cydbwyso) o dan y Ddeddf Coedwigaeth â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

108 cyfanswm o 136 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno

| Cytuno | 76 |
|---|---|
| Anghytuno | 32 |
| Cyfanswm | 108 |

**Cwestiwn 5**

**Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirprwyo ei gyfrifoldebau dros reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru i eraill? Nodwch a ydych yn ystyried y dylai fod unrhyw gyfyngiadau ar CNC o ran dirprwyo'r swyddogaethau hyn.**

119 cyfanswm o 149 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno

| Cytuno | 72 |
|---|---|
| Anghytuno | 47 |
| Cyfanswm | 119 |

Cwestiwn 6

**Ydych chi'n cytuno y gallai cynllun rheoli coedwigoedd tymor hir sy'n seiliedig ar gytundeb rhwng rheolwr/perchennog coedwig a CNC fod yn ffordd briodol o reoleiddio ac awdurdodi cwympo unrhyw goed?**

110 cyfanswm o 134 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno

| Cytuno | 97 |
|---|---|
| Anghytuno | 15 |
| Cyfanswm | 110 |

Cwestiwn 7

**Ydych chi'n cytuno y dylai amodau mewn trwydded cwympo coed amodol neu gynllun rheoli coedwigoedd tymor hir gyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

109 cyfanswm o 128 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno

| Cytuno | 88 |
|---|---|
| Anghytuno | 21 |
| Cyfanswm | 109 |

Cwestiwn 8

**Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirymu neu ddiwygio trwyddedau cwympo coed neu gymeradwyaethau cynlluniau rheoli coedwigoedd?**

112 cyfanswm o 130 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno

| Cytuno | 75 |
|---|---|
| Anghytuno | 37 |
| Cyfanswm | 112 |

**Cwestiwn 9**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig sy'n ymwneud â diddymu'r gofyniad i sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol?**

**60 cyfanswm o 94 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 27 |
|---|---|
| Anghytuno | 33 |
| Cyfanswm | 60 |

**Cwestiwn 10**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i warchod coed hynafol a threftadaeth gwerthfawr yn well drwy fireinio'r fframweithiau statudol presennol, yn bennaf y drefn gorchmynion cadw coed?**

**132 cyfanswm o 149 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 105 |
|---|---|
| Anghytuno | 27 |
| Cyfanswm | 132 |

**Ni roddodd 356 a ymatebodd fel rhan o ymgyrch farn bendant am y cwestiynau a ofynnwyd ond gwnaethant fynegi barn o blaid ac yn erbyn y cynigion yn ymwneud â Coedwigedd. Mae'r safbwyntiau hynny wedi cael eu cofnodi a byddant yn cael eu hystyried wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion.**

## Tirweddau Dynodedig

**Cwestiwn 11**

**A ddylid sicrhau bod dibenion statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

**212 cyfanswm o 214 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 100 |
|---|---|
| Anghytuno | 112 |
| Cyfanswm | 212 |

**Cwestiwn 12**

**Pan fo nodweddion arbennig pob ardal ddynodedig yn cael eu nodi, a ddylid rhoi mwy o bwys iddynt wrth wneud penderfyniadau? Wrth ystyried hyn, sut y dylid gwneud hynny er mwyn mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i ychwanegu gwerth at y modd y mae'r ardaloedd hynny'n cael eu llywodraethu a'r cysylltiad â chymunedau a busnesau lleol?**

**138 cyfanswm o 152 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 111 |
|---|---|
| Anghytuno | 27 |
| Cyfanswm | 138 |

**Cwestiwn 13**

**A ddylid cyflwyno deddfwriaeth i gydnabod amrywiaeth ehangach o ardaloedd a phartneriaethau sy'n gysylltiedig â llywio'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? Pa ddulliau y dylid eu hystyried?**

**81 cyfanswm o 104 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 40 |
|---|---|
| Anghytuno | 41 |
| Cyfanswm | 81 |

**Cwestiwn 14**

**Oes unrhyw agweddau eraill ar adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru lle'r ydych yn credu bod angen darpariaeth ddeddfwriaethol? Os oes, eglurwch pa agweddau a pham.**

**24 cyfanswm o 51 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 7 |
|---|---|
| Anghytuno | 17 |
| Cyfanswm | 24 |

**Ni roddodd 105 a ymatebodd fel rhan o ymgyrch farn bendant am y cwestiynau a ofynnwyd ond gwnaethant fynegi barn o blaid ac yn erbyn y cynigion yn ymwneud â thirweddau dynodedig. Mae'r safbwyntiau hynny wedi cael eu cofnodi a byddant yn cael eu hystyried wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion.**

## Mynediad

**Cwestiwn 15**

**A fydd y cynigion hyn yn sicrhau cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac a fyddant yn darparu mesurau diogelu effeithiol ar gyfer rheoli tir a'r amgylchedd naturiol?**

**294 cyfanswm o 301 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 75 |
|---|---|
| Anghytuno | 219 |
| Cyfanswm | 294 |

**Cwestiwn 16**
**A fydd y cynigion hyn yn darparu system fwy integredig a chyfoes ar gyfer nodi, dynodi a chofnodi ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd?**

**233 cyfanswm o 240 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 87 |
|---|---|
| Anghytuno | 146 |
| Cyfanswm | 233 |

**Cwestiwn 17**
**A fydd y cynigion hyn yn rhoi eglurhad sylweddol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd, rheolwyr tir ac eraill yn glir ynghylch eu hawliau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn perthynas â mynediad i'r awyr agored**

**260 cyfanswm o 264 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 75 |
|---|---|
| Anghytuno | 185 |
| Cyfanswm | 260 |

**Ni roddodd 16,108 arall a ymatebodd fel rhan o ymgyrch farn bendant am y cwestiynau a ofynnwyd ond gwnaethant fynegi barn o blaid ac yn erbyn y cynigion yn ymwneud â mynediad. Mae'r safbwyntiau hynny wedi cael eu cofnodi a byddant yn cael eu hystyried wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion.**

## Y Môr a Physgodfeydd

**Y Môr**
**Cwestiwn 18**

**Ydych chi'n cefnogi'r angen am bwerau newydd i bennu rhanbarthau cynllun morol Cymru ac i baratoi cynlluniau morol ar gyfer y rhanbarthau hynny?**

**Cwestiwn 19**

**Os nad ydych yn cefnogi cynlluniau morol rhanbarthol, nodwch sut rydych yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â materion lleol o fewn y fframwaith cyfredol a beth fyddai effaith benodol y cynigion ar eich buddiannau chi?**

Mae'r ymatebion i'r ddau gwestiwn wedi'u cyfuno

**53 cyfanswm o 61  ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 46 |
|---|---|
| Anghytuno | 7 |
| Cyfanswm | 53 |

**Physgodfeydd**

**Cwestiwn 20**

**Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i reoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg? A allwch roi enghraifft lle byddai rheolaeth hyblyg yn fantais i'ch busnes?**

**29 cyfanswm o 31  ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 23 |
|---|---|
| Anghytuno | 6 |
| Cyfanswm | 29 |

**Cwestiwn 21**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trefn drwyddedu sy'n addas i'r diben yng Nghymru ar gyfer trwyddedu dyframaethu? A oes swyddogaethau eraill a ddylai ddod o dan y drwydded, yn eich barn chi?**

**31 cyfanswm o 38 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 24 |
|---|---|
| Anghytuno | 7 |
| Cyfanswm | 31 |

**Cwestiwn 22**

**Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ehangu cwmpas y Gofrestr Prynwyr a Gwerthwyr? Beth fydd effaith y cynigion ar eich busnes?**

**16 cyfanswm o 17 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 14 |
|---|---|
| Anghytuno | 2 |
| Cyfanswm | 16 |

## Dŵr

**Diwigio Codi Dŵr**

**Cwestiwn 23**

**Ydych chi'n cytuno â'r dull rydym yn ei gynnig, sef diwygio codi dŵr ar sail Cymru yn unig?**

**50 cyfanswm o 81 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 35 |
|---|---|
| Anghytuno | 15 |
| Cyfanswm | 50 |

**Diwygiadau Draenio**

**Cwestiwn 24**

**A ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru? A fyddai unrhyw un o'r cynigion newydd yn creu effaith/anghysondeb newydd neu annisgwyl?**

**Cwestiwn 25**

**A ydych chi'n credu y gallai unrhyw gynigion ychwanegol eraill wella'r sefyllfa ddeddfwriaethol / rheoleiddiol yn y tymor byr?**
**A oes angen unrhyw ddiwygiadau posibl eraill yng Nghymru, y bydd angen eu gweithredu yn fwy hirdymor o bosibl?**

Mae'r ymatebion i'r ddau gwestiwn wedi'u cyfuno.

**70 cyfanswm o 70 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 64 |
|---|---|
| Anghytuno | 6 |
| Cyfanswm | 70 |

**Ni roddodd 105 a ymatebodd fel rhan o ymgyrch farn bendant am y cwestiynau a ofynnwyd ond gwnaethant fynegi barn o blaid ac yn erbyn y cynigion yn ymwneud â Diwygiadau Draenio. Mae'r safbwyntiau hynny wedi cael eu cofnodi a byddant yn cael eu hystyried wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion.**

## Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

### Pwerau Mynediad

**Cwestiwn 26 − Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel ei bod yn:**

- **cael gwared ar yr angen i roi 7 diwrnod o rybudd i'r person sy'n meddiannu'r eiddo;**
- **cadw'r angen am warant;**
- **ehangu'r disgrifiad o'r wybodaeth y gellir ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei darparu;**
- **darparu'r gallu i symud deunydd o'r eiddo (a'i gadw) i'w archwilio, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i storio'n electronig?**

**53 cyfanswm o 60 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 48 |
|---|---|
| Anghytuno | 5 |
| Cyfanswm | 53 |

**Sancsiynau o dan Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (DDA).**

**Cwestiwn 27**

**Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel ei bod yn cynnwys y dewis i Awdurdodau Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio â chydymffurfio â hysbysiadau yn hytrach na gorfod erlyn drwy'r llysoedd?**

**64 cyfanswm o 66 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 54 |
|---|---|
| Anghytuno | 10 |
| Cyfanswm | 64 |

**Taflu sbwriel o gerbydau**

**Question 28**

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno pwerau yng Nghymru a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol allu rhoi cosb ariannol i geidwad cofrestredig cerbyd os yw sbwriel wedi cael ei daflu o'r cerbyd hwnnw, ni waeth a yw'n hysbys ai peidio pwy yw'r unigolyn a gyflawnodd y drosedd taflu sbwriel ?

**116 cyfanswm o 116 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 107 |
|---|---|
| Anghytuno | 9 |
| Cyfanswm | 116 |

**Rheoleiddio Mwy Craff Rôl Mesurau Sylfaenol**

**Cwestiwn 29**

**A ddylid cyflwyno mesurau sylfaenol fel ffordd o reoleiddio gweithgareddau risg isel? Gofynnwyd i ymatebwyr fynegi barn am y math o weithgareddau a fyddai'n elwa ar gael eu rheoleiddio drwy fesurau sylfaenol**

**66 cyfanswm o 88 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 46 |
|---|---|
| Anghytuno | 20 |
| Cyfanswm | 66 |

**Roedd 109 arall a ymatebodd fel rhan o ymgyrch yn gwrthwynebu'r cynigion am y**

**Mesur Sylfaenol. Mae'r safbwyntiau hynny wedi cael eu cofnodi a byddant yn cael eu hystyried wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion.**

### Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

**Cwestiwn 30**

**A ddylid estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru?**

**32 cyfanswm o 47 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 19 |
|---|---|
| Anghytuno | 13 |
| Cyfanswm | 32 |

### Bywyd gwyllt

**Cwestiwn 31**

**Ydych chi'n credu bod 'Cod Llywodraeth Cymru ar yr Arfer Orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid' yn gwella safonau lles anifeiliaid? Oes gennych chi dystiolaeth ar effeithiolrwydd y Cod yng Nghymru?**

**30 cyfanswm o 89 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 21 |
|---|---|
| Anghytuno | 9 |
| Cyfanswm | 30 |

**Cwestiwn 32**

**Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol cael eglurder ynghylch y term "o leiaf unwaith bob dydd"?**

**60 cyfanswm o 89 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 50 |
|---|---|
| Anghytuno | 10 |
| Cyfanswm | 60 |

**Cwestiwn 33**

**Ydych chi'n cytuno y byddai gofyniad i symud anifail sydd wedi'i ddal yn cael gwared ar amwysedd mewn perthynas ag archwilio maglau'n rheolaidd?**

**55 cyfanswm o 89 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 42 |
|---|---|
| **Anghytuno** | 13 |
| **Cyfanswm** | 55 |

**Cwestiwn 34**

**A ddylid cyflwyno gofyniad i beidio â meddu ar neu werthu magl hunan-gloi? A fyddai hynny'n arwain at unrhyw anfanteision?**

**54 cyfanswm o 89 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 42 |
|---|---|
| **Anghytuno** | 12 |
| **Cyfanswm** | 54 |

**Cwestiwn 35**

**A ddylid ei gwneud yn drosedd i unrhyw un ddefnyddio neu feddu ar fagl ar unrhyw dir heb ganiatâd y perchennog/deiliaid er mwyn diogelu perchnogion/deiliaid rhag i faglau gael eu gosod ar eu tir heb ganiatâd?**

**65 cyfanswm o 86 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 61 |
|---|---|
| **Anghytuno** | 4 |
| **Cyfanswm** | 65 |


**Cwestiwn 36**
**A ddylid rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion er mwyn rheoleiddio maglau? A fyddai hynny'n ffordd effeithiol a hyblyg o reoli'r defnydd o faglau yn y dyfodol? Ystyriwch a ddylai Gweinidogion Cymru gael pŵer eang, drwy Orchymyn, i bennu gofynion pellach megis archwilio, labelu a phennu y dylai defnyddwyr maglau gael eu hyfforddi.**

**52 cyfanswm o 83 ymatebwyr yn darparu ymateb ' cytuno ' neu ' anghytuno**

| Cytuno | 31 |
|---|---|
| **Anghytuno** | 21 |
| **Cyfanswm** | 52 |

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 1 – Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n credu bod cyfleoedd eraill i integreiddio dulliau economaidd cylchol? Os ydych, nodwch enghreifftiau o unrhyw rwystrau rheoleiddiol a fyddai'n ein hatal rhag integreiddio yn hynny o beth.**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 70 |
| Anghytuno | 11 |
| Ddim yn siŵr | 27 |
| **Cyfanswm** | **108** |

**Roedd y sylwadau isod yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan y 70 o ymatebwyr i'r cwestiwn am integreiddio dulliau economaidd cylchol:**

- At ei gilydd, roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod, wrth newid i economi gylchol, fod yn rhaid mynd ati ar yr un pryd i gyflwyno newidiadau rheoleiddiol o ran dylunio cynhyrchion a gweithgynhyrchu deunyddiau, yn ogystal â chreu mwy o alw yn y farchnad am ddeunyddiau eilaidd. Byddai angen i'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr fod yn gryfach er mwyn mynd i'r afael â gwastraff deunydd pacio.

- Crybwyllwyd bod cyfle i ddefnyddio'r pwerau codi trethi sydd gan Lywodraeth Cymru i annog cwmnïau i beidio â chynhyrchu nwyddau na ellir eu tynnu'n ddarnau i'w hatgyweirio. Mae cymhellion economaidd eraill y gellid eu defnyddio i newid ymddygiad − nodwyd bod cyflwyno tâl am fagiau siopa yn enghraifft lwyddiannus o gymhellion o'r fath. Ymhlith yr opsiynau posibl yr oedd cynlluniau dychwelyd ernes a chodi tâl am eitemau untro.

- Ar ôl Brexit, mae'n bosibl y bydd cyfle i ddatblygu strategaeth genedlaethol ac i gategoreiddio gwastraff, ac efallai y gallai hynny olygu y byddai modd newid i economi gylchol yn gynt. Gofynnwyd cwestiwn penodol ynglŷn â rheoli dŵr a'r posibilrwydd o ddefnyddio llai o ddŵr ar gyfer prosesau gweithgynhyrchu. Byddai hynny'n gydnaws â datblygu 'ôl troed dŵr i Gymru'.

- O ran rheoli tir, crybwyllwyd bod arferion ffermio organig a defnyddio technolegau Treulio Anaerobig yn enghreifftiau o economi gylchol.

**Rhoddir enghreifftiau isod sy'n adlewyrchu'r rhwystrau rheoleiddiol a'r heriau a fyddai'n llesteirio gwaith i integreiddio dulliau economaidd cylchol:**


- Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i sicrhau bod polisïau ar goedwigaeth ac amaethyddiaeth yn cyd-fynd yn well â'i gilydd fel y bo modd rhoi ystyriaeth lawn i'r manteision sy'n gysylltiedig â chreu a rheoli coetir, a hynny o ran defnydd tir ac o ran sicrhau manteision ehangach i gymdeithas ac i iechyd. Awgrymodd un ymatebydd y gellid gwneud defnydd gwell a mwy eang o bren a dyfir yng Nghymru. Ymhlith y cynigion eraill yr oedd cynlluniau tyfu cymunedol, trefnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn agor ei dir ar gyfer mathau eraill o ddefnydd, e.e. hela/saethu, a newid polisïau caffael cyhoeddus.

- Er mwyn cyrraedd y Targed o greu economi gylchol, bydd angen gwell addysg a newid diwylliannol yn ogystal â diwygio rheoleiddio. Gall fframwaith deddfwriaethol presennol yr UE fod yn rhwystr rhag ailgylchu ac ailddefnyddio, ac mae'r diffiniad o wastraff, yn benodol, yn atal buddsoddiad. Mae rheoliadau gwastraff hefyd yn atal gweddillion treuliad anaerobig a thail dofednod rhag cael eu masnachu fel gwrteithiau er budd amaethyddiaeth, er y gallai hynny leihau dibyniaeth ar wrteithiau cemegol.

- Pwysleisiodd un ymatebydd y bydd yn anodd cyrraedd y targedau amgylcheddol drwy ddulliau masnachol oni ddefnyddir dulliau rheoleiddiol i wneud pethau fel plastig newydd sbon yn ddrutach na phlastig wedi'i ailgylchu. Hefyd, nid yw'r dreth dirlenwi bresennol yn ddigon uchel i annog yr economi gylchol i dyfu. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn anodd cael caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a chyfleusterau ailddefnyddio. Er mwyn helpu i newid i economi gylchol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid wrth gynllun cymhorthdal, o leiaf ar y dechrau.

- Beirniadwyd y ffaith nad oedd mwynau a chynhyrchion mwynau yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad, ac nad oedd y datganiadau ardal sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) ar gael adeg yr ymarfer ymgynghori.

**Cwestiwn 2 − A oes unrhyw rwystrau rheoleiddiol sy'n ein hatal rhag cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur? Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol.**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 51 |
| Anghytuno | 18 |
| Ddim yn siŵr | 22 |
| **Cyfanswm** | **91** |

**Mae'r sylwadau a'r enghreifftiau isod yn adlewyrchu safbwyntiau ymatebwyr a nododd fod rhwystrau rheoleiddiol rhag cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur:**

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i ddatblygu canllawiau gwell ar asesu o dan y fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

- At ei gilydd, y farn oedd bod y rheoliadau'n anhyblyg ac y gallent fod yn rhwystro atebion arloesol. Ymhlith rhai o'r rhwystrau rheoleiddiol penodol a nodwyd oedd y gofynion caeth o ran iechyd a diogelwch, cymhlethdod y prosesau cydsynio ar gyfer cynllunio, cyfyngiadau ar gampau saethu, cost bodloni gofynion rheoleiddiol ac is-ddeddfau lleol yn atal coed rhag cael eu plannu ar strydoedd. Cyfeiriodd cynrychiolwyr y diwydiant amaethyddiaeth yn benodol at anhyblygrwydd y rheolau ar ddefnyddio slyri mewn Parthau Perygl Nitradau (NVZ).

- Yn ôl nifer o'r ymatebwyr, mae safonau cynllunio'n rhy isel a dylid gwneud mwy mewn polisïau cenedlaethol a chynlluniau datblygu lleol i hyrwyddo seilwaith gwyrdd. Teimlai rhai o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol fod gofynion cynllunio yn anghyson â'r ddyletswydd a osodwyd ar Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), yn enwedig o ran bodloni'r chwe phrawf [3] yn y Ddeddf Cynllunio wrth osod amodau ar ganiatâd cynllunio, ac o ran gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth (er enghraifft, drwy gyflwyno mesurau i wella bioamrywiaeth).

[3] Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru (Cyfeirnod y Cylchlythyr: WGC 016/2014), Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu (Saesneg yn unig) yn mynd ati yn Adran 3 i nodi'r Chwe Phrawf: *(i) angenrheidiol; (ii) perthnasol i gynllunio; (iii) perthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu; (iv) gorfodadwy; (v) manwl; a (vi) rhesymol ym mhob agwedd arall* (o'u cyfieithu).

Mae'r ffyrdd presennol o fynd ati i reoli perygl llifogydd yn gyfyngol hefyd a gellid eu gwella drwy fabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur.

- Teimlid bod y Ddeddf Coedwigaeth yn gyfyngol am nad yw'n caniatáu newid y defnydd a wneir o dir ar gyfer coetir i fath arall o ddefnydd. Gallai hynny lesteirio twf pellach yn y sector ynni adnewyddadwy ac nid yw'n hwyluso (nac yn annog) opsiynau eraill ar gyfer rheoli tir. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith nad oes modd defnyddio a gorfodi amodau mewn trwyddedau cwympo coed er mwyn atal difrod i goetiroedd hynafol drwy ailstocio. Mae busnesau ffermio dan fwy o anfantais ym maes rheoli coetir oherwydd nad ydynt yn gymwys i gael taliadau Colofn 1 ac oherwydd bod cyfyngiadau trawsgydymffurfio ar reoli coetir/coed.

- Beirniadwyd rheoliadau'n ymwneud â chynefinoedd a rhywogaethau hefyd am eu bod yn anhyblyg ac yn cyfyngu ar y gallu i ddefnyddio atebion yn seiliedig ar natur. Beirniadaeth arall oedd bod rheoliadau amgylcheddol yn rhy wan neu ein bod yn wael am eu gweithredu a'u gorfodi yng Nghymru.

- Roedd yr ymatebion a oedd yn ystyried amaethyddiaeth yn adlewyrchu ansicrwydd ynglŷn â pholisi ar ôl Brexit. Roedd pryderon ynghylch sut y gellid defnyddio Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd ac y byddai rhoi mwy o faich rheoleiddiol yn rhoi ffermwyr yng Nghymru o dan anfantais. Roedd cynrychiolwyr y diwydiant ffermio yn dadlau o blaid ffordd arall o weithredu mewn perthynas â rheoliadau ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) ac roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai telerau tenantiaethau byrdymor a hirdymor hefyd effeithio ar allu rheolwyr tir i fabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur.


- Nodwyd bod rhwystrau o ran rheoleiddio a phrosesau i'w gweld mewn meysydd eraill hefyd, megis ynni adnewyddadwy (y broses gydsynio'n rhy hir a drud), y môr (mae gwarchod yn dod yn ail i amcanion strategol) a dŵr (gall atebion peirianyddol caled fod yn fwy effeithiol nag atebion sy'n seiliedig ar natur a gall fod yn haws rhagweld effaith atebion peirianyddol o'r fath).

- Nodwyd rhai o'r ymatebwyr y prif rwystrau a ganlyn yn ei ymateb ef: ansicrwydd ynglŷn â gwerth amgylcheddol, cynnal a chadw prosiectau a bod yn gyfrifol amdanynt yn y tymor hir, diffyg ffrydiau buddsoddi, ffocws prosiectau yn un byrdymor, polisïau cenedlaethol sy'n anghyson â'i gilydd, dim system ar gyfer rhoi cymorth i raglenni a arweinir gan gymunedau, ac anhawster wrth orfodi gofynion nad ydynt yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol.

**Mae'r sylwadau isod yn adlewyrchu barn yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno bod rhwystrau rheoleiddiol ar hyn o bryd sy'n atal atebion sy'n seiliedig ar natur rhag cael eu cyflwyno:**

- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn nad oes unrhyw rwystrau rheoleiddiol ar hyn o bryd ac y gellid rhoi atebion sy'n seiliedig ar natur ar waith drwy wella a symleiddio gweithdrefnau gweinyddol. Teimlai rhai o'r ymgyngoreion fod gormod o reoliadau a chanllawiau arferion gorau a bod hynny'n golygu bod prosesau statudol yn gymhleth. Dylai'r Llywodraeth ddilyn yr egwyddor o "gadw pethau'n syml" a chydgrynhoi'r gofynion perthnasol presennol fel y bo'r gyfraith yn haws i'w deall.

**Cwestiwn 3 – A oes cyfleoedd posibl i gyflwyno mecanweithiau'r farchnad neu ddulliau rheoleiddio arloesol? A oes unrhyw rwystrau deddfwriaethol a fyddai'n ein hatal rhag eu gweithredu?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 59 |
| Anghytuno | 23 |
| Ddim yn siŵr | 10 |
| **Cyfanswm** | **91** |

**Mae'r sylwadau a ganlyn yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r dulliau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn penodol hwn:**

- Roedd Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) yn un o'r meysydd a ystyriwyd gan nifer o'r ymatebwyr. Roedd rhai o'r ymgyngoreion o'r farn y byddai cyfle i ddatblygu ac i hyrwyddo TWE, ar yr amod y byddai digon o adnoddau'n cael eu neilltuo ar gyfer hynny.

- Pwysleisiodd un ymatebydd fod yn rhaid cefnogi TWE drwy ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd, e.e. dim ond os nad oes gormod o effaith ar lif naturiol neu ar lefel y ffynhonnell y mae'n dderbyniol tynnu dŵr o gyrsiau dŵr. Awgrymwyd y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth sydd ohoni er mwyn caniatáu i fwy o ddŵr nag a ganiateir ar hyn o bryd gael ei godi o gyrsiau dŵr pan fo'r llif yn uchel er mwyn ychwanegu at y dŵr mewn cronfeydd.

- Cyfeiriodd cyfran uchel o'r ymatebwyr at bwysigrwydd rheoliadau cymesur sy'n cael eu gorfodi'n briodol. Roedd cefnogaeth eang o blaid sylfaen reoleiddiol glir sy'n cael ei gorfodi'n effeithiol, a thaliadau am wasanaethau ychwanegol. Roedd un ymatebydd yn mynnu y byddai budd mewn rhoi cymorth uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector ac i gwmnïau buddiannau cymunedol sy'n darparu nwyddau cyhoeddus drwy atebion sy'n seiliedig ar natur.

- Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen i strategaethau masnachol symbylu datblygiadau yn y dyfodol, heb fod angen cymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth. Dylid adolygu dulliau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at gyn lleied o gost â phosibl i fusnesau a'u bod yn galluogi datblygiadau yn hytrach nag yn eu dal

yn ôl. Awgrymodd eraill ddull reoleiddio a fyddai'n fwy seiliedig ar risg. Y nod fyddai lleihau'r baich ar weithrediadau risg isel a chanolbwyntio ar weithgareddau risg uchel.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus, oherwydd y gallai gefnogi cadwyni cyflenwi lleol, a chael ei raddio yn unol â safonau amgylcheddol. Dywedodd yr ymatebwyr hynny y dylai cyrff cyhoeddus fynd ati'n fwy rhagweithiol i ddatblygu cymhellion i brynu bwyd a gynhyrchir yn lleol, gan ychwanegu rhwystrau rheoleiddiol posibl ar gyfer mewnforion ac allforion.

- Awgrymodd ymatebwyr eraill fod y cyfleoedd yn cynnwys codi treth ar ddeunydd pecynnu untro, trefniadau capio a masnachu (er y gallai dulliau eraill o reoleiddio, megis trwyddedau, gymhlethu'r rhain) a chymhellion i ddatblygu'r farchnad ar gyfer nwyddau cyhoeddus.

**Mae'r sylwadau a ganlyn yn rhoi safbwyntiau am rwystrau deddfwriaethol sydd yn eu lle:**

- Rhestrodd nifer o'r ymatebwyr rwystrau sy'n atal TWE, gan gydnabod bod angen rhagor o ymchwil a rhoi prosiectau ar waith er mwyn newid agwedd gwneuthurwyr polisi at ddulliau sy'n seiliedig ar risg. Pwysleisiwyd bod cryn risg oherwydd nad oedd ffordd gydgysylltiedig ar hyn o bryd o gyllido atebion sy'n seiliedig ar natur ac o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai modd goresgyn hynny ond gallai gymryd sawl blwyddyn i ddatblygu prisiadau ariannol derbyniol ar gyfer TWE gan ychwanegu gwerth priodol at warchod natur.


- Crybwyllodd un ymatebydd mai cyfyngedig yw effaith y rhan fwyaf o gynlluniau gwirfoddol oherwydd nad ydynt yn denu diwydiant i chwarae rhan eang ynddynt. Tynnodd un ymatebydd sylw at lwyddiant y tâl statudol am fagiau siopa yng Nghymru, sy'n enghraifft dda o'r rôl allweddol y gall rheoleiddio ei chwarae wrth gyflawni amcanion amgylcheddol. Roedd beirniadaeth hefyd am y ffaith nad oedd egwyddor "y llygrwr sy'n talu" yn cael ei gorfodi.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r angen am ddulliau rheoleiddio newydd yn teimlo y gallai mwy o reoleiddio roi busnesau Cymru o dan anfantais ar ôl Brexit ac y gallai lesteirio datblygiad sectorau penodol fel twristiaeth. Mater arall a oedd yn destun pryder oedd tenantiaethau fferm a'r anhawster posibl i gael gafael ar denantiaid sy'n barod i weithio o fewn cyfyngiadau cynlluniau cadwraeth.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 2 – Coedwigaeth

Cafwyd cyfanswm o 549 o ymatebion i goedwigaeth, cafodd 356 eu cynhyrchu gan ymgyrchoedd a gynhaliwyd gan bartïon â diddordeb Cafwyd 193 o ymatebion gan ymgynghoreion unigol. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan unigolion yn cynnwys cyflwyniadau ar ran sefydliadau cynrychioliadol, awdurdodau lleol a chyrff preifat a thrydydd sector.

**Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gysoni dyletswyddau cyffredinol CNC (gan gynnwys y ddyletswydd cydbwyso) o dan y Ddeddf Coedwigaeth â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 76 |
| Anghytuno | 32 |
| Ddim yn siŵr | 28 |
| **Cyfanswm** | **136** |

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig i gysoni dyletswyddau CNC:**

- Yn yr ymatebion o blaid y cynnig, nodwyd bod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn hollbwysig er mwyn cyrraedd y targedau yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru, Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i chylch gwaith ehangach ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nododd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn dymuno gweld amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn dod yn rhan annatod o sut yr ydym yn gwneud pethau ond tanlinellwyd y dylid rhoi'r un pwys ar elfennau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol-ddiwylliannol yr amcanion hynny.
- Roedd un o'r ymatebwyr o blaid y cynnig yng Nghwestiwn 4 mewn egwyddor, ar yr amod bod y dyletswyddau a ganlyn yn cael eu cadw: 'hyrwyddo buddiannau coedwigaeth: datblygu gwaith coedwigo, a chynhyrchu a chyflenwi pren a chynhyrchion eraill o goedwigoedd'. Rhybuddiwyd hefyd na ddylid mynd ati i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy mewn ffordd a fyddai'n tanseilio'r nod cyffredinol o ddatblygu economi gylchol ar gyfer pren a chynhyrchion coetiroedd, neu a fyddai'n tanseilio nodau strategaeth Coetiroedd i Gymru (a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol) i greu coetir gwell, a mwy ohono.
- Disgrifiodd nifer o'r ymatebwyr yr amryfal fanteision sy'n gysylltiedig â rheoli coed, coetiroedd a choedwigoedd yn dda, gan gynnwys pren a dyfir yn lleol, cyflogaeth yng


nghefn gwlad, mwy o fioamrywiaeth a chyfleoedd hamdden. Gallai awdurdodau lleol, yn benodol, fanteisio ar y cyfleoedd 'nid yn unig yn fasnachol ond hefyd mewn cynlluniau naturiol i atal llifogydd, er mwyn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er mwyn gwarchod pridd, a hefyd ar gyfer mwynhad tawel'.

- Nodwyd mewn rhai o'r ymatebion fod gwrthdaro buddiannau posibl yn CNC o ran y targedau cynhyrchu pren a'r amcanion amgylcheddol. Mynegwyd pryderon am allu CNC i gyflawni dyletswyddau ychwanegol gyda'r adnoddau ariannol a'r adnoddau staffio sydd ganddo ar hyn o bryd.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig i gysoni dyletswyddau CNC:**

- Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion nad oeddent o blaid y cynnig oddi wrth aelodau unigol o'r cyhoedd. Nododd llawer nad oedd modd iddynt ffurfio barn gan nad oedd digon o fanylion yn y cynnig am gyfrifoldebau CNC, am ei adnoddau ariannol ac am yr effaith y byddai newid y Ddeddf Coedwigaeth yn ei chael.

**Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirprwyo ei gyfrifoldebau dros reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru i eraill? Nodwch a ydych yn ystyried y dylai fod unrhyw gyfyngiadau ar CNC o ran dirprwyo'r swyddogaethau hyn.**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 72 |
| Anghytuno | 47 |
| Ddim yn siŵr | 30 |
| **Cyfanswm** | **149** |


**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig ar alluogi CNC i ddirprwyo cyfrifoldebau:**

- Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynnig, roedd y sylwadau'n adlewyrchu pryderon am weithredu'r newid hwn. Pwysleisiodd un o'r ymatebwyr fod angen sefydlu proses deg a chyson er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.
- Nododd ymatebydd arall ei bod yn anodd mynd ati i gydweithio yn y gymuned. Yn ei brofiad ef, roedd rhai cymunedau lleol yn awyddus i reoli coedwig ond roedd y brwdfrydedd cychwynnol wedi diflannu yn wyneb gwrthwynebiad pobl eraill yn y gymuned.
- Roedd eraill o blaid y cynnig ar yr amod bod amcanion amgylcheddol yn cael eu diogelu.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig i roi'r gallu i CNC ddirprwyo cyfrifoldeb neu yr oedd ganddynt bryderon yn ei gylch:**

- Mynegwyd pryder nad oedd y ddogfen ymgynghori yn manylu digon ar y swyddogaethau y bwriedid eu dirprwyo ac y gallai dirprwyo drosglwyddo rheolaeth i bartïon â buddiannau masnachol. Roedd gwrthwynebiad cryf i ddirprwyo unrhyw un o swyddogaethau statudol CNC.
- Teimlai rhai o'r ymatebwyr y gallai fod rôl i fyrddau gwasanaethau lleol mewn penderfyniadau am yr Ystad Goetir.
- Roedd pryder hefyd y gallai'r cynnig i ddirprwyo awgrymu na fyddai cyfrifoldeb ar CNC i gyflawni'i holl swyddogaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Teimlai eraill nad oedd hyn yn briodol ac awgrymwyd y dylid diddymu CNC ac mai sefydliad gwahanol, ar wahân i'r rheoleiddiwr amgylcheddol, ddylai fod yn gyfrifol am reoli tir. Ym marn rhai o'r ymgyngoreion, roedd y ffaith bod CNC yn rheoleiddio ei dir a'i goetiroedd ei hun yn broblem.
- Pryder arall oedd y posibilrwydd o golli mynediad i ardaloedd a fyddai'n cael eu dirprwyo.
- Cafwyd rhai awgrymiadau ar sut y gellid blaenoriaethu wrth ddirprwyo rheolaeth ar goetir, a pha feini prawf y gellid eu defnyddio wrth benderfynu i bwy y dylid dirprwyo − e.e., cadw coedwigoedd cyhoeddus pwysig yn y Parciau Cenedlaethol ond lesio'r gwaith rheoli i eraill. Pwysleisiwyd bod yn rhaid wrth broses dryloyw er mwyn gwneud penderfyniadau o'r fath. Mynegwyd pryder y gallai dirprwyo fel hyn fod yn ffordd o dorri costau ac y gallai, yn ymarferol, fod gyfystyr â phreifateiddio. Teimlai rhai o'r ymatebwyr efallai na fyddai adnoddau cymunedol yn ddigon i reoli defnydd o'r ystad ac os nad yw CNC yn gallu rheoli defnydd anghyfreithlon o'r ystad, na fyddai cymuned yn debygol o fedru gwneud hynny.
- Roedd pryder y gallai dirprwyo ffafrio'r rheini â'r gallu i ymateb ac ag adnoddau da. Gallai hynny, yn ei dro, olygu na fyddai CNC yn cymryd rhan mor amlwg a gweithredol mewn gwaith cymunedol. Roedd beirniadaeth am sut yr oedd CNC yn mynd ati i wireddu'r ymrwymiad yn "Coetiroedd a Chi" a theimlai rhai o'r ymatebwyr ei bod, at ei gilydd, yn anodd trafod a meithrin cysylltiadau â CNC.
- Roedd pryder am yr effaith ar gyllidebau pe bai coetir cynhyrchiol yn cael ei dynnu o'r ystad a'i drosglwyddo i gontractwyr preifat − gallai CNC fod mewn sefyllfa wedyn lle byddai ganddo rwymedigaethau ond dim o'r asedau cadarnhaol.

**Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno y gallai cynllun rheoli coedwigoedd tymor hir sy'n seiliedig ar gytundeb rhwng rheolwr/perchennog coedwig a CNC fod yn ffordd briodol o reoleiddio ac awdurdodi cwympo unrhyw goed?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 97 |
| Anghytuno | 15 |
| Ddim yn siŵr | 22 |
| **Cyfanswm** | **134** |

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr o blaid y cynnig i gyflwyno cynllun rheoli coedwigoedd tymor hir a fyddai'n seiliedig ar gytundeb :**

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig, er bod rhai o'r ymatebwyr wedi nodi bod cynllun tymor hir yn allweddol er mwyn rheoli coetiroedd mewn ffordd broffidiol. Esboniwyd mewn un ymateb y byddai cynllun hirdymor dynamig ar gyfer rheoli coetir a fyddai'n cynnwys trefniadau diogelu ariannol nid yn unig yn meithrin diddordeb ond y byddai hefyd yn rhoi sicrwydd na fyddai'r buddsoddiad yn cael ei beryglu yn y dyfodol wrth i flaenoriaethau polisi newid.
- Roedd rhai yn cwestiynu a fyddai gan CNC ddigon o reolaeth – gorfodi amodau, sicrhau bod camau dilynol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chynlluniau ac mewn achosion o beidio â chydymffurfio. Achubodd nifer ar y cyfle i ddweud y dylid gwella'r safonau amgylcheddol ar gyfer gweithrediadau. Gofynnodd rhai a oedd angen trwyddedau o gwbl er mwyn teneuo.
- Awgrymwyd y gellid defnyddio cynlluniau coedwigaeth a ganiateir o dan y Ddeddf Coedwigaeth i roi cynlluniau tymor hir ar waith.
- Awgrymwyd mewn un ymateb y dylai Cynllun Coedwigaeth fod yn gontract rhwymol rhwng CNC a pherchennog y goedwig, ac y dylai fod yn fframwaith ar gyfer unrhyw weithgarwch yn y goedwig. Dylai fod modd ei amrywio hefyd ar ôl adolygu'r dystiolaeth.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol gan ymatebwyr a oedd yn erbyn neu â phryderon am y cynnig i gyflwyno cynllun rheoli coedwigoedd tymor hir a fyddai'n seiliedig ar gytundeb:**


- Cyfeiriwyd mewn nifer o'r sylwadau at yr amwysedd wrth ddiffinio rheolaeth gynaliadwy. Gallai arwain at osod amodau afrealistig, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i berchenogion roi'r gorau i arfer coedwigaeth broffesiynol ac a fyddai'n golygu y byddai gofyn rheoli mewn ffordd na fyddai'n gynaliadwy yn ariannol.

- Roedd pryder y gallai hyn fod yn rhy gymhleth ac yn rhy ddrud ar gyfer coetiroedd bach a'u perchenogion. Awgrymwyd mewn un ymateb y gallai'r ffyrdd o arfer rheolaeth ganolbwyntio ar sicrhau bod yr unigolyn a fyddai'n rheoli'r coetir yn gymwys i wneud hynny.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu'r angen am drwyddedau cwympo coed yn y lle cyntaf, gan ddweud bod gormod o ofynion biwrocrataidd yn cael eu rhoi ar berchenogion tir eisoes.

- Nododd llawer o'r ymgyngoreion fod CNC a'r Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (CONFOR) wrthi eisoes yn gwneud gwaith o'r fath a theimlent nad oedd angen y cynnig yn yr ymgynghoriad. Roedd beirniadaeth gyffredinol am y diffyg eglurder a manylion am y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig. Crybwyllwyd mewn sylwadau eraill fod angen sefydlu prosesau ymgynghori priodol ar gyfer cynlluniau a thrwyddedau coedwigoedd.

- Mater arall a oedd yn peri cryn bryder oedd y gallai gweithredu fel hyn arwain at golli rheolaeth ar gwympo coed ar dir ffermio pe bai cynllun rheoli yn disodli'r angen am drwydded yn gyfan gwbl. Gofynnodd rhai a fyddai'r cynlluniau a gâi eu cymeradwyo yn cael eu cofnodi fel y bo modd mynd ati mewn ffordd briodol i fonitro hynt y cynlluniau hynny.

**Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno y dylai amodau mewn trwydded cwympo coed amodol neu gynllun rheoli coedwigoedd tymor hir gyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 88 |
| Anghytuno | 21 |
| Ddim yn siŵr | 19 |
| **Cyfanswm** | **128** |

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig:**

- Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid gosod amodau ar drwyddedau. Byddai hynny hefyd yn helpu o ran yr hyn y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei wneud ac o ran yr hyn y mae'r rheoleiddiwr yn ei ddisgwyl.

- Roedd peth cefnogaeth o blaid rhoi cylch gwaith ehangach i goedwigaeth a fyddai'n cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac felly roedd peth cefnogaeth i'r amodau y dylid eu gosod. Wedi dweud hynny, roedd pryder hefyd y byddai ehangu cwmpas amodau yn rhy amhenodol ac y gallai'r rheoleiddiwr ofyn gormod, gosod gofynion afrealistig a/neu ei gwneud yn anodd i reolwr y goedwig wybod a oedd yn cydymffurfio â'r amodau ai peidio.

- Ffordd posibl arall o weithio, a fyddai'n llai costus yn weinyddol, fyddai sicrhau bod coetiroedd yn cael eu rheoli gan bobl â'r cymwysterau priodol a fyddai hefyd yn cael eu rheoleiddio'n briodol. Fodd bynnag, byddai gofyn i'r rheoleiddiwr fod yn barod i ymddiried mwy yn y gweithredwyr nag ar hyn o bryd.

- Roedd barn yr un mor gryf fod angen rheoleiddio rheolwyr coetiroedd er mwyn atal niwed i'r amgylchedd.

- Gwrthwynebiad arall oedd y byddai amodau manylach yn anos i'w gorfodi ac yn gostus i'w gweinyddu. Dim ond os oes angen gwneud hynny er mwyn sicrhau arferion coedwigaeth da y mae Deddf Coedwigaeth 1967 yn caniatáu i amodau gael eu gosod felly byddai angen deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru i ddiwygio'r ddarpariaeth bresennol.

- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai datganiadau ardal chwarae rhan hanfodol wrth benderfynu ar yr amodau mwyaf priodol ac angenrheidiol ar gyfer rhanbarth.


**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig:**

- Roedd pryderon am y ffaith nad oedd diffiniad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sut yr oedd yn berthnasol i goedwigaeth yn ymarferol.

- Nododd un o'r ymatebwyr y dylid adolygu'r esemptiadau ar gyfer trwyddedau cwympo coed, neu hyd yn oed gael gwared arnynt yn llwyr.

- Roedd ychydig o gefnogaeth i newidiadau penodol a fyddai'n caniatáu ar gyfer defnyddio'r amodau a fyddai'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau ar Gynefinoedd a Rhywogaethau.

**Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno y dylai CNC allu dirymu neu ddiwygio trwyddedau cwympo coed neu gymeradwyaethau cynlluniau rheoli coedwigoedd?**





| | |
|---|---|
| Cytuno | 75 |
| Anghytuno | 37 |
| Ddim yn siŵr | 18 |
| **Cyfanswm** | **130** |

- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn disgwyl i'r pŵer hwnnw fod ar gael i CNC eisoes. Fodd bynnag, teimlai eraill, fod y dulliau a oedd ar gael iddo ar hyn o bryd yn ddigonol ac nad oedd angen unrhyw newid. Barn rhai oedd na ddylid ond diwygio amodau drwy gytundeb â'r ymgeiswyr neu'r perchenogion/rheolwyr. Er hynny, dylai CNC fod yn gallu ôl-osod amodau ychwanegol pe byddai unrhyw risg i'r amgylchedd.

- Roedd gallu CNC i gyflawni dyletswyddau ychwanegol â'r adnoddau sydd ganddo ar hyn o bryd yn peri cryn bryder i'r ymatebwyr, yn enwedig pe bai disgwyl iddo adolygu pob trwydded bob hyn a hyn, e.e. bob blwyddyn. Roedd nifer o'r ymgyngoreion yn pryderu am effeithiau negyddol ar fusnesau rheoli coetiroedd.

- Mynegodd y rhanddeiliaid safbwyntiau cyferbyniol ynglŷn â chynnig iawndal am golli incwm neu am gostau y byddai gofyn eu hysgwyddo ar ôl i drwyddedau gael eu diwygio. Er bod rhai o blaid y cynnig, roedd eraill yn gryf yn ei erbyn.


**Cwestiwn 9 - Ydych chi’n cytuno â’r cynnig sy’n ymwneud â diddymu’r gofyniad i sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 27 |
| Anghytuno | 33 |
| Ddim yn siŵr | 34 |
| **Cyfanswm** | **94** |

- Ymhlith y rhesymau allweddol a roddwyd o blaid y newid hwn oedd colli swyddogaethau'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol, gan fod nifer ohonynt yn cael eu hysgwyddo bellach gan sefydliadau a grwpiau eraill. Rheswm arall oedd bod y Pwyllgorau Cynghori Rhanbarthol yn canolbwyntio ar safbwyntiau'r diwydiant ac nad ydynt yn adlewyrchu safbwyntiau ehangach ym maes coedwigaeth.
- Roedd y rheini a oedd yn erbyn y cynnig yn dadlau nad oedd CNC wedi dangos bod ganddo ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i fedru bwrw ymlaen heb gyngor allanol.
- Un o'r pryderon allweddol a godwyd gan y rhanddeiliaid oedd rôl CNC wrth hunanreoleiddio gweithgareddau cwympo ac ailblannu coed. Roedd rhai o'r ymatebwyr o blaid sefydlu system lywodraethu annibynnol. Hefyd, pwysleisiodd rhai o'r ymgyngoreion fod angen panel annibynnol a fyddai'n gallu ymdrin ag apelau yn erbyn CNC, a nododd rhai ohonynt y byddai'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol yn gorff priodol yn hynny o beth.
- Beirniadwyd y ffordd y mae CNC yn mynd ati i roi polisïau ar goedwigaeth ar waith yng Nghymru.

**Cwestiwn 10 - Ydych chi’n cytuno â’r cynigion i warchod coed hynafol a threftadaeth gwerthfawr yn well drwy fireinio’r fframweithiau statudol presennol, yn bennaf y drefn gorchmynion cadw coed?**





| | |
|---|---|
| Cytuno | 105 |
| Anghytuno | 27 |
| Ddim yn siŵr | 17 |
| **Cyfanswm** | **149** |

- Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth lethol i'r cynnig hwn a fyddai'n darparu fframwaith cryfach a mwy effeithlon ar gyfer gwarchod coed unigol a choetiroedd hynafol. Pwysleisiwyd hefyd yn yr ymatebion fod angen i CNC gynnig mwy o gyngor am reoli coed treftadaeth.

- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y ffaith fod modd cwympo coed sy'n bwysig o ran treftadaeth drwy ddefnyddio'r esemptiadau sy'n caniatáu i bobl gwympo coed marw a choed peryglus – nodwyd mai diffyg eglurder a chamddehongli oedd y prif bethau a oedd i gyfrif am hynny.
- Ar y llaw arall, bernid bod esemptiadau yn ffordd bwysig o reoli coed peryglus sy'n peryglu diogelwch y cyhoedd.
- Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a oedd y diwygiadau arfaethedig o fewn cwmpas yr ymgynghoriad ac a oeddent yn faterion a sydd wedi'u datganoli.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 3 –Tirweddau Dynodedig

**Cwestiwn 11: A ddylid sicrhau bod dibenion statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 100 |
| Anghytuno | 112 |
| Ddim yn siŵr | 2 |
| **Cyfanswm** | **214** |

Daeth 216 o sylwadau i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a'r cynnig sy'n gysylltiedig ag ef.

**Rhoddodd yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig y rhesymau a ganlyn dros gredu y dylid sicrhau bod dibenion statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:**

- Byddai'n rhoi rôl a diben ehangach i'r tirweddau dynodedig;
- Byddai manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gymru;
- Byddai'n fodd i sicrhau bod rôl a diben y tirweddau dynodedig yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd;
- Byddai'n hyrwyddo ffordd fwy cydgysylltiedig o weithio.

**Rhoddodd yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig y rhesymau a ganlyn dros gredu na ddylid sicrhau bod dibenion statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:**


- Mae'r fframwaith polisi ar gyfer ardaloedd dynodedig wedi hen ennill ei blwyf ac nid oes angen ei ddiwygio;
- Mae ardaloedd dynodedig yn cyfrannu eisoes at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, felly ni fyddai angen diwygio eu dibenion statudol.
- Egwyddorion rheoli yn hytrach nag un o ddibenion dynodi yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; a
- dylid cysylltu'r dibenion statudol â nodweddion y dirwedd yn hytrach nag ag adnoddau naturiol

- Er bod gan yr ymatebwyr safbwyntiau gwahanol o ran cytuno neu anghytuno â'r cynnig, mynegodd y naill ochr a'r llall safbwyntiau tebyg. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr holl ymatebwyr y dylai tirweddau dynodedig gyfrannu at sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn eu hardaloedd ac nad oedd angen diwygio'u dibenion statudol er mwyn iddynt fedru gweithredu yn hynny o beth.

- Teimlai nifer o'r ymatebwyr y dylid diwygio dibenion statudol yr ardaloedd dynodedig am resymau eraill, er enghraifft, er mwyn cryfhau cadwraeth neu gynnwys diben economaidd ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd cytundeb ynglŷn â diwygio'r dibenion nac ychwaith sut y dylid gwneud hynny.

- Barn gyffredinol yr ymatebwyr oedd bod y dibenion statudol presennol wedi dal prawf amser a'u bod yn elfen bwysig sydd wedi helpu i sicrhau bod Parciau Cenedlaethol wedi parhau'n lleoedd hardd, sy'n ysbrydoli pobl, sydd o fudd i'r cyhoedd mewn amryw ffyrdd ac sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u gwarchod er mwyn i bawb gael eu mwynhau. Roedd yr ymatebwyr hynny'n cydnabod dyhead Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y dibenion yn adlewyrchu'r rôl y gall Parciau Cenedlaethol ei chware o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol.

**Cwestiwn 12: Pan fo nodweddion arbennig pob ardal ddynodedig yn cael eu nodi, a ddylid rhoi mwy o bwys iddynt wrth wneud penderfyniadau? Wrth ystyried hyn, sut y dylid gwneud hynny er mwyn mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i ychwanegu gwerth at y modd y mae'r ardaloedd hynny'n cael eu llywodraethu a'r cysylltiad â chymunedau a busnesau lleol?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 111 |
| Anghytuno | 27 |
| Ddim yn siŵr | 14 |
| **Cyfanswm** | **152** |

Daeth 152 o sylwadau i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a'r cynigion sy'n gysylltiedig ag ef.

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y dylid rhoi pwys ar nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig wrth wneud penderfyniadau ac y dylai trefniadau llywodraethu esblygu mewn ffordd sy’n adlewyrchu amgylchiadau lleol. Cyflwynwyd awgrymiadau a safbwyntiau gwahanol ynghylch sut y dylid cyflawni hynny er mwyn ychwanegu gwerth at y modd y caiff yr ardaloedd hynny eu llywodraethu ac er mwyn creu mwy o gysylltiad â chymunedau a

busnesau lleol. Byddai'r ymatebwyr yn croesawu gwaith pellach gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu mwy ar y cynigion.


**Cyflwynodd yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynigion yr awgrymiadau a ganlyn ar sut y gellir rhoi mwy o bwys ar nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig wrth wneud penderfyniadau er mwyn ychwanegu gwerth at y modd y caiff yr ardaloedd hynny eu llywodraethu a chreu mwy o gysylltiad â chymunedau a busnesau lleol:**

- Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r ddyletswydd a osodwyd ar bob awdurdod lleol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i "roi ystyriaeth i" warchod a gwella harddwch naturiol AHNE;
- Dylai ardaloedd dynodedig feithrin rhagor o gysylltiadau â chymunedau a busnesau lleol drwy ymgynghori â nhw a thrwy ddefnyddio dulliau eraill, megis byrddau lleol, gan gael ychydig yn unig o gymorth oddi wrth y llywodraeth;
- Dylai Llywodraeth Cymru ganiatáu i gyfran o'r lleoedd ar Fyrddau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael eu llenwi drwy ethol yn uniongyrchol;
- Dylai Llywodraeth Cymru drefnu nad yw'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu cynnwys bellach o dan y drefn a sefydlwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Dylid cryfhau atebolrwydd a'r modd y caiff yr ardaloedd dynodedig eu rheoli drwy fynd ati'n rheolaidd i adolygu ac i ddiweddaru cynlluniau rheoli a thrwy gydnabod eu bod yn ffordd o helpu gyda gwaith ehangach i reoli tir;
- Dylai comisiynydd annibynnol, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru roi gweithdrefn ar waith i ddiffinio nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig.

**Rhoddodd ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynigion y rhesymau a ganlyn dros gredu na ddylid rhoi mwy o bwys ar nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig wrth wneud penderfyniadau:**

- Mae'n anodd pennu diffiniad clir o nodweddion arbennig, a byddai mabwysiadu ffordd gyffredinol o weithredu ar gyfer ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn ddynodedig, yn broblem;
- Mae nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig wedi cael eu diffinio eisoes ac mae mwy o bwys yn cael ei roi arnynt eisoes wrth wneud penderfyniadau;
- Mae angen ystyried ffactorau eraill, megis cynaliadwyedd economaidd, gwasanaethau amgylcheddol, hamdden, llesiant a mynediad.

**Cwestiwn 13: A ddylid cyflwyno deddfwriaeth i gydnabod amrywiaeth ehangach o ardaloedd a phartneriaethau sy'n gysylltiedig â llywio'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? Pa ddulliau y dylid eu hystyried?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 40 |
| Anghytuno | 41 |
| Ddim yn siŵr | 23 |
| **Cyfanswm** | **104** |

Daeth 104 o sylwadau i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a'r cynnig sy'n gysylltiedig ag ef.

**Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y dylid cydnabod amrywiaeth ehangach o ardaloedd a phartneriaethau er mwyn llywio'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r sylwadau a ganlyn yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gyflwynwyd:**

- Roedd cefnogaeth i gasgliadau proses 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru', a hynny'n benodol o ran meithrin cydweithrediad, lle mae cyrff sy'n rheoli tirweddau dynodedig yn gweithio ar draws ffiniau, gan gynnwys;
    - rhoi cymorth i gyrff eraill sy'n rheoli tirweddau yng Nghymru i ddatgloi potensial eu tirweddau o ran llesiant
    - mynd ati i weithio'n rhanbarthol, gan wneud hynny ar y cyd ag amryfal bartneriaid, i gyflawni nodau cyffredin
- Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i'w gwneud yn glir eu bod am ystyried mwy ar yr opsiynau ar gyfer rhoi'r model hwn ar waith. Er hynny, awgrymwyd nad oedd yn glir a oes angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol pellach ar hyn o bryd.

**Rhoddodd yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig y rhesymau a ganlyn dros gredu nad oedd angen darpariaethau deddfwriaethol er mwyn cydnabod ardaloedd a phartneriaethau newydd i lywio'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:**

- Dylid adolygu'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â dynodi er mwyn gweld a ydynt yn ffyrdd priodol o gydnabod ardaloedd newydd;

- Dylid hoelio sylw ar ddatblygu'r dynodiadau presennol a'u gallu i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy;
- Nid oes angen deddfwriaeth newydd. Dylid creu partneriaethau a chydweithio er mwyn bwrw ymlaen â gwaith i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ym mhob tirwedd.

**Mynegodd yr ymatebwyr nifer o bryderon a chyflwynwyd awgrymiadau ganddynt ynglŷn â chydnabod amrywiaeth ehangach o ardaloedd a phartneriaethau er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, gan gynnwys:**


- Rhoi mwy o ran a grym i bobl leol;
- Rhoi blaenoriaeth i gadwraeth;
- Sicrhau na chaiff statws a darpariaeth dynodiadau cyfredol eu gwanhau wrth gydnabod ardaloedd newydd;
- Edrych ar fodelau gwahanol cyn penderfynu a oes angen darpariaethau deddfwriaethol;
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ardaloedd posibl ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a systemau dŵr-gyfeillgar;
- Sicrhau nad yw trefniadau rheoli perfformiad yn cymryd gormod o amser.

- Er bod gan yr ymatebwyr safbwyntiau gwahanol o ran cytuno neu anghytuno â'r cynnig, roedd gan y ddwy ochr safbwyntiau tebyg o ran nad oes angen darpariaethau deddfwriaethol er mwyn cydnabod partneriaethau ehangach i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

- At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y byddai gwerth mewn cydnabod ardaloedd newydd; er hynny, nid oedd cytundeb ynghylch yr angen am ddarpariaethau deddfwriaethol er mwyn cydnabod ardaloedd newydd. Roedd cefnogaeth gyffredinol i fodelau cymunedol o ddynodi, gan gynnwys y Parciau Natur Rhanbarthol, a oedd yn un o'r enghreifftiau yn y ddogfen ymgynghori. Roedd cydnabyddiaeth hefyd ei bod yn ddymunol dysgu oddi wrth y dulliau gweithredu amrywiol a welir ar draws Ewrop a thu hwnt.

- Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr fod angen mynd ati'n gyntaf, cyn cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol er mwyn cydnabod ardaloedd newydd, i gadarnhau a all yr ardaloedd dynodedig presennol sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac a fyddai'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â dynodi yn ateb y diben yn hynny o beth. Roedd pryder cyffredinol hefyd y gallai statws y dynodiadau presennol, a'r broses o'u rhoi ar waith, gael eu glastwreiddio pe bai ardaloedd newydd yn cael eu cydnabod ac y dylid atal hynny rhag digwydd.

**Cwestiwn 14: Oes unrhyw agweddau eraill ar adroddiad Tirweddau’r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru lle'r ydych yn credu bod angen darpariaeth ddeddfwriaethol? Os oes, eglurwch pa agweddau a pham.**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 7 |
| Anghytuno | 17 |
| Ddim yn siŵr | 27 |
| **Cyfanswm** | **51** |

Daeth 51 o sylwadau i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Teimlai'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig y byddai angen darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer yr agweddau a ganlyn ar adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru er mwyn:**

- Cryfhau'r rhwymedigaethau sydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried eu dyletswyddau;
- Diwygio dibenion statudol y Parciau Cenedlaethol;
- Cyfyngu ar gynllunio amhriodol;
- Datblygu’r ffordd y mae'r ardaloedd dynodedig yn cael eu llywodraethu;
- Sicrhau cyllid diogel ac uniongyrchol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**Rhoddodd yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig y rhesymau a ganlyn dros gredu na fyddai angen darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer agweddau eraill ar adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru:**

- Dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd a gyflwynir fod yn seiliedig ar Adroddiad Marsden[4];
- Mae'n bosibl y bydd yr ardaloedd dynodedig yn colli'r statws rhyngwladol a ddyfarnwyd gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) os gweithredir y darpariaethau sydd yn yr adroddiad;

[4] Cyhoeddwyd adroddiad Marsden ym mis Gorffennaf 2014 ar ôl adolygiad annibynnol o ddiben a threfniadau llywodraethu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru.

- Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol, gan gynnwys y dibenion statudol ac Egwyddor Sandford, eisoes yn galluogi'r tirweddau dynodedig i weithredu yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- O ran goblygiadau'r ffaith fod y DU yn ymadael â'r UE, dywedodd yr ymatebwyr y dylid gohirio unrhyw newidiadau deddfwriaethol tan ar ôl inni ymadael â'r UE;
- Dylai'r dibenion statudol presennol ac Egwyddor Sandford barhau'n gymwys er mwyn galluogi tirweddau dynodedig i weithredu yng nghyd-destun y fframwaith cyfreithiol a'r fframwaith polisi newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Cyflwynwyd y sylwadau a'r awgrymiadau isod gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno bod angen darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer agweddau eraill ar yr adroddiad:

- Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i newidiadau arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ac ymgynghori'n lleol yn eu cylch;
- Dylid cadw harddwch naturiol, cadwraeth ac Egwyddor Sandford a dylid rhoi mwy o bwys arnynt wrth wneud penderfyniadau;
- Dylid ystyried sut y gellir defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i wella'r cyfleoedd ar gyfer ardaloedd dynodedig yng Nghymru;
- Dylid rhoi blaenoriaeth i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Dylid ystyried yr argymhellion yn adroddiad Marsden;
- Mae angen moderneiddio'r ardaloedd dynodedig;
- Dylid defnyddio trefn ddilysu Categori 5 UNESCO ar gyfer pob proses;
- Os diwygir y dibenion statudol, dylid cynnwys diben economaidd-gymdeithasol.

Nid oedd cytundeb ymhlith yr ymatebwyr ynghylch a fyddai angen darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer agweddau eraill ar adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru. Cyflwynodd yr ymatebwyr nifer o argymhellion, sylwadau a phryderon gwahanol am y cwestiwn hwn, ac nid oedd unrhyw gytundeb cyffredinol ynghylch pa agweddau eraill ar yr adroddiad, os oes rhai, y mae angen darpariaethau deddfwriaethol ar eu cyfer. Cafwyd awgrymiadau yn nifer o'r ymatebion nad oeddent yn cyfeirio at unrhyw agwedd ar yr adroddiad.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Pennod 4 - Mynediad

**Cwestiwn 15**
**A fydd y cynigion hyn yn sicrhau cysondeb o ran y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac a fyddant yn darparu mesurau diogelu effeithiol ar gyfer rheoli tir a'r amgylchedd naturiol?**

**Cwestiwn 16**
**A fydd y cynigion hyn yn darparu system fwy integredig a chyfoes ar gyfer nodi, dynodi a chofnodi ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd?**

**Cwestiwn 17**
**A fydd y cynigion hyn yn rhoi eglurhad sylweddol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd, rheolwyr tir ac eraill yn glir ynghylch eu hawliau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn perthynas â mynediad i'r awyr agored?**

Tabl (iii) - yr ymatebion a ddaeth i law i gwestiynau a chynigion a gyflwynwyd gan unigolion ac ymgyrchoedd mewn ymateb i'r Bennod ar Fynediad i Gefn Gwlad

| | Ymatebion Unigol | | | Ymatebion Ymgyrchoedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn siŵr | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn siŵr |
| **Cwestiwn 15** | 75 | 219 | 7 | | | |
| **Cwestiwn 16** | 87 | 146 | 7 | | | |
| **Cwestiwn 17** | 75 | 185 | 4 | | | |
| **Cynnig 10** | 102 | 185 | 4 | 11,752 | 1,806 | |
| **Cynnig 11** | 103 | 98 | 9 | 3,892 | 1,810 | |
| **Cynnig 12** | 60 | 97 | 11 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 13** | 94 | 32 | 6 | 4,060 | 1,701 | |
| **Cynnig 14** | 86 | 143 | 6 | 1,483 | 1,819 | |
| **Cynnig 15** | 57 | 69 | 11 | 1,483 | 0 | |
| **Cynnig 16** | 86 | 24 | 6 | 1,483 | 113 | |
| **Cynnig 17** | 61 | 21 | 18 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 18** | 96 | 17 | 3 | 1,638 | 0 | |
| **Cynnig 19** | 112 | 3 | 6 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 20** | 75 | 7 | 6 | 3,879 | 0 | |
| **Cynnig 21** | 57 | 9 | 15 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 22** | 67 | 4 | 7 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 23** | 70 | 4 | 6 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 24** | 75 | 19 | 2 | 1,470 | 0 | |
| **Cynnig 25** | 102 | 10 | 2 | 4.047 | 0 | |
| **Cynnig 26** | 104 | 7 | 10 | 4,047 | 0 | |
| **Cynnig 27** | 80 | 3 | 3 | 1.470 | 0 | |

Cafwyd 16,656 o ymatebion i Bennod 4, gan gynnwys 16,005 drwy sawl ymgyrch gan sefydliadau a 651 gan unigolion.

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan unigolion yn cynnwys cyflwyniadau ar ran cynrychiolwyr sefydliadau, awdurdodau lleol a chyrff o'r sector preifat a'r trydydd sector. Mae Tabl (i) yn dangos yr ymgyrchoedd o blaid ac yn erbyn y cynigion ar fynediad i'r awyr agored.

Nid oedd sawl ymatebwr wedi ymateb i gwestiwn penodol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ond yn hytrach wedi penderfynu mynegi sylwadau cyffredinol am fater neu faterion penodol, neu ymateb i ddetholiad o'r cynigion. Y materion a godwyd fwyaf yn yr ymatebion gan unigolion ac ymgyrchoedd oedd beicio a mynediad i ddŵr. Gwnaed y rhan fwyaf o'r sylwadau a mynegwyd y farn gryfaf, ar y ddau begwn, i gynigion 10, 11, 12 a 14.

**Roedd cytundeb cyffredinol mewn sawl maes:**

- Cytunwyd yn gyffredinol y byddai newidiadau i weithdrefnau o ran cynnal a chadw a chofnodi hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad yn fanteisiol, gan gynnwys galluogi mwy o hyblygrwydd wrth ddiwygio rhai agweddau ar y rhwydwaith llwybrau, sicrhau bod mapiau mynediad yn cael eu hadolygu'n barhaus a digideiddio mapiau mynediad a hawliau tramwy.

- Gwnaeth yr ymatebwyr awgrymiadau defnyddiol am ddiwygiadau technegol a fyddai'n lleihau costau a ysgwyddir gan awdurdodau lleol a rheolwyr tir.

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i bob defnyddiwr ymddwyn yn gyfrifol ac i gyflwyno cod mynediad statudol. Galwodd sawl ymatebwr i'r ddau beth hyn gael eu gorfodi drwy sancsiynau troseddol neu sancsiynau eraill.

- Awgrymodd sefydliad cynrychioliadol y dylai'r cod fod yn fyr, yn ddealladwy ac yn un y gellir ei orfodi. Awgrymodd un ymatebwr y dylid codi dirwyon yn y fan a'r lle ac argymhellodd sawl un arall y dylid ategu hynny ag ymgyrch addysg gynhwysfawr.

- Yn gyffredinol, derbyniwyd y cynnig bod angen cadw cŵn ar denynnau o hyd penodol yng nghyffiniau da byw. Roedd nifer o ymatebwyr am weld diffiniad o "cyffiniau" ac roedd rhai, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, am i'r cynnig fynd ymhellach er mwyn gwarchod bywyd gwyllt.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynigion i ddiddymu Deddf Llwybrau Beiciau 1984 a darpariaethau penodol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CRoW), yn arbennig y rheini sy'n nodi dyddiad cau ar gyfer cofnodi hawliau tramwy hanesyddol. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch darpariaethau eraill Deddf CRoW yr ystyrir eu diddymu.

- Ar y cyfan, croesawyd y cynnig i adolygu'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â fforymau mynediad lleol. Cafwyd llawer o awgrymiadau o ran ehangu aelodaeth y fforymau i gynnwys cydbwysedd o ran defnyddwyr a rheolwyr tir ac mae hynny eisoes o fewn eu cwmpas. Awgrymwyd gan sawl ymatebwr y dylid galluogi dirprwyon i fynd i gyfarfodydd ac i estyn cyfnodau aelodaeth.

- O ran yr ymatebion i gynnig 13, roedd y rhan fwyaf o blaid estyn tir mynediad i'r arfordir a'r clogwyni. Roedd rhai ymatebwyr am gael eglurder ynghylch y ffaith mai dim ond

clogwyni arfordirol y mae'r term "clogwyni" yn ei gyfleu. Roedd rhai yn erbyn estyn tir mynediad i'r arfordir tra bo eraill yn fodlon â hynny cyn belled a bod mesurau effeithiol yn eu lle ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt a chynefinoedd.

- Roedd y mwyafrif helaeth a ymatebodd i gynnig 21, sef mynd ati mewn ffordd fwy hyblyg ar lwybrau tramwy i reoli mesurau rheolaeth ar stoc, wedi nodi bod caniatáu'r mynediad lleiaf rhwystrol yn un o fanteision dull mwy hyblyg o gadw rheolaeth ar stoc.

- Roedd y rhan fwyaf o blaid cynnig 23 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau mynediad integredig yn lle'r cynlluniau presennol ar gyfer gwella hawliau tramwy. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na fyddai cynlluniau integredig yn fanteisiol.

**Daeth amrywiaeth fwy cymysg ac eang o safbwyntiau i law ar gyfer y cynigion eraill. Roedd rhai yn llawer mwy dadleuol ac wedi ysgogi mwy o ymatebion:**

- Gwnaeth cynnig 10 (rhannu defnydd o lwybrau) a chynnig 14 (tir mynediad a dŵr) ennyn ymateb mawr. Roedd y safbwyntiau cryf a ddaeth i law yn amrywio o'r rheini a oedd yn nodi'r manteision o ran iechyd a'r economi a fyddai'n deillio o estyn cyfleoedd i gael mynediad, i'r rheini a oedd yn nodi'r risgiau i ddiogelwch ac i fuddiannau economaidd sydd eisoes yn bod.

- Roedd mwyafrif sylweddol yr ymatebion a ddaeth i law o blaid rhannu defnydd o lwybrau, gyda rhai yn awgrymu estyn hynny ymhellach i ganiatáu teithiau lamas ac i hwyluso'r broses o drosglwyddo badau difodur i'r dŵr.

- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn na fyddai hawl i farchogaeth ac i feicio ar lwybrau troed o fudd i reolwyr tir, i gyflwr y llwybrau nac i iechyd a diogelwch. Roedd eraill, gan gynnwys y Cerddwyr, yn credu na fyddai mabwysiadu dull cyffredinol o weithredu yn ymarferol ond bod gwerth i lwybrau aml-ddefnydd, ac y byddai estyn mynediad i ddefnyddwyr heblaw am gerddwyr yn fanteisiol. Ymhlith yr awgrymiadau a wnaed yr oedd ysgafnhau'r baich gweithdrefnol ar gyfer dynodi hawliau newydd a darparu adnoddau i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso ffordd o weithredu fesul achos wrth iddynt fynd ati i ddynodi llwybrau aml-ddefnydd.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid mynd ati, mewn partneriaeth â rheolwyr tir, i gyflwyno llwybrau caniataol. Yn gyffredinol, nid oedd pobl yn ymwybodol bod llwybrau'n cael eu dynodi a dim ond eu gallu i ddefnyddio llwybrau yn "ddiogel ac yn gyfleus" oedd bwysicaf iddynt.

- Cafwyd ymatebion amrywiol i gael gwared ar gyfyngiadau penodol ar weithgareddau ar dir mynediad dan Ddeddf CRoW. Roedd llawer wedi nodi cyfyngiadau penodol mewn perthynas â'u buddiannau eu hunain ac yn dweud yr hoffent gael gwared arnynt neu eu cadw. Er enghraifft, roedd llawer o'r rheini a oedd yn eu hystyried eu hunain yn enweirwyr yn anghytuno â'r cynnig i ganiatáu i lestrau fynd ar ddŵr sydd ar dir mynediad. Yn yr un modd, roedd y rheini a oedd yn eu hystyried eu hunain yn feicwyr neu'n farchogion o blaid cael gwared ar y cyfyngiad ar gerbydau difodur a cheffylau.

- Cael gwared ar y cyfyngiadau er mwyn caniatáu gwersylla oedd y cyfyngiad mwyaf dadleuol a gynigiwyd. O blith yr ymatebwyr a nododd y cyfyngiad hwn yn benodol, roedd y rhan fwyaf yn gwrthwynebu cael gwared arno. Mynegwyd pryderon gan y sector amaethyddol a'r sector cyhoeddus, ymhlith eraill, ynghylch yr effaith negyddol bosibl ar

fywyd gwyllt ac ar wersylloedd sydd eisoes yn bod. Er nad oedd rhai ymatebwyr eraill yn erbyn y syniad o wersylla gwyllt, awgrymwyd bod angen dysgu o brofiadau yn yr Alban a lleihau problemau megis taflu sbwriel.

- Rhoddwyd llawer o sylw i'r cynnig i gael gwared ar yr anghysondeb lle gwaherddir rasys beicio ar lwybrau ceffylau (gydag awdurdod priodol), yn enwedig gan farchogion. Roedd rhai ymatebwyr yn dweud mai diogelwch oedd eu prif bryder, ond roedd eraill o blaid y cynnig. Roedd y rheini a oedd o blaid wedi awgrymu y dylid ystyried awdurdodau lleol yn awdurdod priodol.

- Cafodd mynediad at ddŵr, a'r cynnig i bennu Cyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdod cyfrifol ar gyfer hwyluso defnydd ohono, gryn dipyn o sylw. Daeth nifer uwch o lawer o ymatebion i law o blaid deddfu ar gyfer rhoi mynediad at ddŵr ar gyfer gweithgareddau difodur, gan gynnwys canŵio a nofio. Fodd bynnag, o'r ymatebion unigol hynny, roedd y rhan fwyaf a ddangosodd ddiddordeb mewn mynediad at ddŵr yn eu hystyried eu hunain yn enweirwyr neu'n bysgotwyr eraill, ac roeddent yn gwrthwynebu hwyluso mynediad i ddefnyddwyr eraill. Dywedodd llawer o'r unigolion hynny y byddai mynediad agored at ddyfroedd mewndirol yn creu anghydraddoldeb, oherwydd y ffioedd a godir am drwyddedau pysgota ac oherwydd bod genweirwyr wedi buddsoddi eu hamser a'u hadnoddau i sicrhau bod yr afonydd y maent yn pysgota ynddynt yn iach.

- Roedd y rheini a oedd o blaid darparu mwy o fynediad at ddŵr wedi nodi bod y manteision o safbwynt yr economi, iechyd a'r gymdeithas yn rhesymau dros gefnogi mwy o gyfleoedd i gael mynediad at ddŵr. Roedd y manteision eraill yn cynnwys y ffaith y byddai mwy o dystion ar gael i nodi achosion o lygru.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn betrus ynghylch rhoi cyfrifoldebau nodi a mapio mynediad at ddŵr i Cyfoeth Naturiol Cymru. Y prif bryderon oedd diffyg adnoddau a gwrthdaro buddiannau rhwng ei rolau o ran broceru trefniadau mynediad, gorfodi amgylcheddol a rheoleiddio trwyddedau pysgota.

- Cafwyd ymateb gofalus a chymysg gan y rheini a ymatebodd i'r cynnig i gyflwyno cyfyngiadau ac eithriadau. Roedd y sector amaethyddol ymhlith y rheini a oedd o blaid y cynnig hwn mewn egwyddor, tra bo'r trydydd sector ymhlith y rheini a oedd yn teimlo nad oedd modd cefnogi na gwrthwynebu oherwydd bod cyn lleied o wybodaeth wedi'i rhoi yn y cynnig. Roedd ymatebion unigol yn cynnwys nifer nad oedd o blaid rhoi cyfyngiadau newydd ar hawliau tramwy cyhoeddus.


Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i gynigion 10-27 yn atgyfnerthu'r farn gyffredinol bod angen gwella'r ffordd y mae mynediad i'r awyr agored yn cael ei ddarparu, ei reoli a'i hyrwyddo yng Nghymru. Roedd angen ystyried yn fanwl sut y gellir gwneud hynny er mwyn lleihau gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr, bywyd gwyllt, a'r ffordd y caiff tir ei reoli.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy  Pennod 5 – Y Môr a Physgodfeydd

Bydd yr ymatebion a gafwyd i'r ddau gwestiwn cyntaf o dan Bennod 5 o'r Ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a oedd yn ymwneud â chynlluniau morol, yn cael eu crynhoi ar yr un pryd.

**Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cefnogi'r angen am bwerau newydd i bennu rhanbarthau cynllun morol Cymru ac i baratoi cynlluniau morol ar gyfer y rhanbarthau hynny?**

**Cwestiwn 19 – Os nad ydych yn cefnogi cynlluniau morol rhanbarthol, nodwch sut rydych yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â materion lleol o fewn y fframwaith cyfredol a beth fyddai effaith benodol y cynigion ar eich buddiannau chi?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 46 |
| Anghytuno | 7 |
| Ddim yn siŵr | 8 |
| **Cyfanswm** | **61** |

Daeth cyfanswm o 61 o ymatebion i law mewn ymateb i gwestiynau 18 a 19.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid rhoi rhagor o bwerau i Gymru baratoi cynlluniau morol is-genedlaethol; fodd bynnag, roedd gan lawer ohonynt bryderon, o ran cyllid ac adnoddau yn bennaf. Roeddent yn croesawu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru ond yn dadlau y dylid canolbwyntio ar hyn o bryd ar gwblhau a gweithredu'r cynllun hwnnw heb dynnu sylw ac adnoddau sydd eisoes yn brin oddi wrtho.

- Credai rhai nad oedd angen cynlluniau morol rhanbarthol ar wahân ar hyn o bryd oherwydd diffyg profiad o weithredu ar y lefel genedlaethol. Byddai angen y profiad hwnnw i lywio cynigion cynllunio morol ar lefel is-genedlaethol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'n fwy priodol ystyried y cynnig hwn yn y dyfodol, ond gwnaethant gadarnhau y byddai'n fuddiol ymdrin â materion penodol ar lefel ranbarthol.

**Rhoddir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a waned o blaid y cynigion ar gynlluniau morol rhanbarthol:**

- Roedd cytundeb cyffredinol y dylai unrhyw gynlluniau rhanbarthol a gâi eu llunio yn y dyfodol weithio law yn llaw â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn credu y byddai cynllunio morol ar lefel is-genedlaethol yn helpu i gyflymu'r gwaith o weinyddu parth morol Cymru ac y byddai'n gam cadarnhaol at wella'r ffordd y mae moroedd Cymru yn cael eu rheoli.

- Credent y byddai rhoi rhagor o bwerau i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau morol rhanbarthol yn helpu i roi diwedd ar yr holl ffyrdd digyswllt y mae sectorau gwahanol yn eu defnyddio ar hyn o bryd i reoli'r môr a'r arfordir, gan helpu i sicrhau cysondeb o ran y ffordd o reoli. Byddai'n fodd hefyd i sicrhau cysondeb wrth reoleiddio a datblygu yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, pe bai cynlluniau rhanbarthol yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol, roedd llawer yn cytuno y byddai angen mwy o eglurder a hefyd wahaniaethu'n glir rhwng rolau ac amcanion y cynlluniau cenedlaethol a'r rhai rhanbarthol.

- Dywedodd un o'r ymatebwyr nad yw'r amryfal fygythiadau i'r amgylchedd morol a nodwyd yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol − gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, 'twf glas' a manteisio'n ormodol arnynt, yn ogystal â gallu'r amgylchedd i ymdopi â'r bygythiadau hynny − yr un peth ym mhob man ac y gallai fod ar rai rhanbarthau, gan gynnwys rhanbarth môr mawr Cymru, angen cynllunio manylach nag eraill. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai cynllunio morol rhanbarthol yn ffordd fwy effeithiol o fynd i'r afael â phroblemau a byddai wir yn werth edrych ar y gwaith y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i wneud ar gynllunio morol rhanbarthol cyn mynd ati i gynllunio yng Nghymru yn y dyfodol.

- Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n llwyr y byddai'n hollbwysig ymgysylltu â rhanddeiliaid ac asiantaethau y tu allan i Lywodraeth Cymru wrth fynd ati i baratoi unrhyw gynlluniau morol rhanbarthol yn y dyfodol.


**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a waned gan ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynigion yn ymwneud â chynlluniau morol rhanbarthol:**

- Prif ddadl y rheini a oedd yn erbyn cyflwyno cynlluniau morol is-genedlaethol oedd y byddent yn ychwanegu cymhlethdod diangen at y rheoliadau sydd yn eu lle eisoes. Eu dadl nhw oedd y gallai hynny arwain at oedi wrth wneud penderfyniadau a gweinyddu ac y gallai hefyd leihau unrhyw fanteision hirdymor a allai ddeillio o gynllunio rhanbarthol.

- Un o'r pryderon eraill oedd bod nodau ac amcanion unrhyw gynlluniau rhanbarthol yn cael eu cyflawni eisoes drwy gynlluniau cenedlaethol ac y gallai hynny arwain at reoli mewn ffyrdd a fyddai'n gorgyffwrdd ac yn gwrthdaro â'i gilydd.

- Roedd rhai o'r rhanddeiliaid o'r farn bod y ddeddfwriaeth bresennol yn ddigonol ar gyfer rheoli parth morol Cymru ac na fyddai cyflwyno cynlluniau newydd yn ffordd gyfrifol o ddefnyddio cyllid nac adnoddau.

**Cwestiwn 20 − Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i reoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg? A allwch roi enghraifft lle byddai rheolaeth hyblyg yn fantais i'ch busnes?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 23 |
| Anghytuno | 6 |
| Ddim yn siŵr | 2 |
| **Cyfanswm** | **31** |

Daeth 31 o ymatebion i law mewn ymateb i'r cwestiwn.

Roedd canran uchel o'r ymatebwyr o blaid y cynnig i reoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg.

**Rhoddir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig i reoli mewn ffordd hyblyg:**

- Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr o blaid caniatáu ffyrdd hyblyg, amser real, o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.

- Awgrymodd llawer ohonynt y gallai pysgodfeydd cregyn gleision y Gogledd fod yn lle perffaith i ddatblygu ac i brofi rhinweddau'r math hwnnw o reoli. Oherwydd nad yw cregyn gleision yn dod o dan y rheolau cenedlaethol na rheolau'r UE ar gyfanswm y ddalfa a ganiateir a chan mai dim ond rheoliadau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol iddynt, dadl yr ymatebwyr oedd y gallai prosiect peilot ar ffyrdd o arfer rheolaeth ar bysgodfeydd cregyn gleision fod yn ffordd hawdd o ddangos manteision y math hwn o reoli.

- Roedd y rheini a oedd o blaid y cynnig yn cytuno y byddai ailedrych ar y ffyrdd presennol o arfer rheolaeth ar dyfu pysgod cregyn yn gam positif tuag ar symleiddio a datblygu'r broses weinyddol o roi caniatâd ar gyfer mathau penodol o ffermio cregyn gleision. Oherwydd mai ffermio cregyn gleision yw un o brif bysgodfeydd Cymru ac oherwydd mai dim ond o bryd i'w gilydd y mae stoc ar gael, a hynny mewn llond llaw o leoedd, roedd yr ymatebwyr yn dadlau y dylai'r Gweinidog greu offeryn statudol ar gyfer rhywogaeth benodol a fyddai'n golygu y byddai modd mynd ati'n gyflym i awdurdodi pysgota am rawn cregyn gleision. O wneud hynny, byddai pysgotwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'r stoc grawn cregyn gleision pan fyddai ar gael a gwneud mwy o gyfraniad i economi Cymru ac i'r ecosystem.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y gallai rheoli pysgodfeydd mewn ffordd hyblyg wneud amgylchedd morol Cymru yn fwy cynaliadwy drwy atal arferion anghynaliadwy.

- Ymhlith y gweithgareddau hynny y mae dal pysgod mudol pelagig yn ddamweiniol (ac yn groes i'r gyfraith yn aml) a threillio a llusgrwydo gan gychod nad ydynt yn dod o Gymru.

- Roedd rhai o'r farn bod lefelau biwrocrataidd ac araf o weinyddu yn golygu nad oedd y pwerau presennol yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n bygwth cynaliadwyedd pysgodfeydd ac felly ei bod yn hollbwysig canoli pŵer a'i roi i'r Gweinidogion er mwyn diogelu'r amgylchedd.

- Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at effeithiau ymadawiad y DU â'r UE a sut y gallent fod o fudd i'r diwydiant pysgota yng Nghymru. Er eu bod o blaid rheoli pysgodfeydd Cymru mewn ffordd hyblyg, pwysleisiodd llawer fod angen sicrhau bod deddfwriaeth ddomestig yn parhau i ateb y diben yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn parhau'n effeithiol yn y tymor hir ar ôl Brexit. Aeth rhai o'r ymatebwyr mor bell ag awgrymu y dylai Cymru ddefnyddio Brexit i gau ei dyfroedd, o leiaf at y terfyn o 12 milltir forol, i gychod nad ydynt o Gymru er mwyn sicrhau bod y dyfroedd hynny'n parhau'n gynaliadwy.

- Dywedodd bron pawb a oedd o blaid y cynnig hwn y dylai pa newidiadau bynnag a gyflwynir gyd-fynd â'r Cynllun Morol a ddrafftiwyd yn ddiweddar.

- Gwnaethant ddweud hefyd y dylai'r broses newid fod yn un dryloyw ac yn agored i eraill graffu arni. Dylai hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dylid trefnu bod ffordd ar gael i randdeiliaid gyfrannu ati.


**Rhoddir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig i reoli mewn ffordd hyblyg:**

- Prif ddadl yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn oedd bod gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd eisoes wrth reoli ei physgodfeydd, ac mai'r unig beth sydd angen ei wneud yw arfer mwy ar y pwerau hynny yn hytrach nag ychwanegu atynt neu eu newid.

- Roedd llawer yn dadlau bod y fframwaith rheoleiddio a rheoli yn bod eisoes ond nad oes digon o adnoddau yn cael eu darparu ar ei gyfer. Dylid troi sylw at ddefnyddio'r pwerau presennol yn hytrach na chreu rhai newydd.

- Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder y gallai mabwysiadu ffordd fwy hyblyg o reoli pysgodfeydd Cymru gael effaith negyddol ar stociau pysgod sydd eisoes yn prinhau. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y byddai hefyd yn arwain at fwy o weithgareddau hamdden fel canŵio, a allai ddifrodi neu effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol ac ar gynaliadwyedd pysgodfeydd.

**Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trefn drwyddedu sy'n addas i'r diben yng Nghymru ar gyfer trwyddedu dyframaethu? A oes swyddogaethau eraill a ddylai ddod o dan y drwydded, yn eich barn chi?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 24 |
| Anghytuno | 7 |
| Ddim yn siŵr | 7 |
| **Cyfanswm** | **38** |

- Roedd brwdfrydedd cyffredinol o blaid trefn drwyddedu addas i'r diben ar gyfer holl weithgareddau'r diwydiant dyframaethu. Roedd llawer yn croesawu'r cynnig i gyflwyno cysondeb wrth drwyddedu ac roedd croeso hefyd i ddatblygiad cyffredinol dyframaethu yng Nghymru.

- Y prif amod ar y gefnogaeth hon, fodd bynnag, oedd y twf mewn magu eogiaid mewn cewyll a'r twf mewn ffermio sewin. Roedd cytundeb eang ymhlith ystod eang o randdeiliaid na ddylid byth ehangu'r arfer hon yng Nghymru oherwydd ei heffeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Aeth rhai o'r ymatebwyr hyd yn oed ymhellach, gan ddweud y dylai dyframaethu mewn cewyll agored gael ei wahardd yn gyfan gwbl yng Nghymru.

- Pysgotwyr pysgod cregyn masnachol yn y Gogledd oedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn erbyn y cynnig.

**Ceir crynodeb isod o sylwadau allweddol yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn ymwneud â thrwyddedu dyframaethu:**

- Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai meini prawf yn ymwneud â chynaliadwyedd fod yn rhan allweddol o'r drefn drwyddedu ac y byddent yn croesawu newidiadau i'r drefn drwyddedu cyhyd ag y byddai modd dangos na fyddai newidiadau o'r fath yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.

- Yr angen i ddiogelu'r amgylchedd oedd y prif fyrdwn yn llawer o'r ymatebion a gafwyd oddi wrth y rheini a oedd o blaid y cynnig hwn. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen parhau i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd ac Asesiadau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd pe bai'r drefn drwyddedu'n cael ei newid.


Pwysleisiwyd hefyd fod angen parhau i warchod Safleoedd Morol Ewropeaidd ar ôl Brexit.

- Roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn credu bod y drefn drwyddedu bresennol, sef y gorchmynion pysgodfeydd unigol, yn feichus ac araf ac nad yw'n helpu i hyrwyddo digon o ymgynghori â deiliad y stoc yn gynnar yn y broses. Er hynny, gwnaethant bwysleisio y byddai angen sicrhau adnoddau er mwyn hwyluso a gorfodi newidiadau, ac y byddai'n rhaid i'r broses fod yn un dryloyw a chynnwys trefniadau ffurfiol ar gyfer herio cynigion.

**Ceir crynodeb isod o sylwadau allweddol yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig yn ymwneud â thrwyddedu dyframaethu:**

- Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn erbyn y cynnig yn anghytuno'n llwyr â'r ddogfen ymgynghori, a oedd yn dweud bod y trefniadau presennol ar gyfer tyfu pysgod cregyn yn feichus ac ar ôl yr oes.
- Er hynny, gwnaethant gyfaddef bod angen symleiddio a chyflymu'r gweinyddu. Roeddent yn dadlau o blaid cadw a pharhau â'r Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol sy'n cael eu goruchwylio o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, gan ddadlau mai hwn oedd yr unig ddarn o ddeddfwriaeth a oedd yn ddigon cadarn i ddiogelu pysgota cregyn yng Nghymru.
- Eu hawgrym nhw oedd y byddai gwell dealltwriaeth o'r rheoliadau presennol, a hefyd eu gorfodi'n well, yn fwy buddiol o lawer i ddyframethu yng Nghymru, ac roeddent i gyd o'r farn y byddai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn peryglu'u busnesau a datblygiad y diwydiant tyfu pysgod cregyn yng Nghymru.

**Cwestiwn 22 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ehangu cwmpas y Gofrestr Prynwyr a Gwerthwyr? Beth fydd effaith y cynigion ar eich busnes?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 14 |
| Anghytuno | 2 |
| Ddim yn siŵr | 1 |
| **Cyfanswm** | **17** |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynnig i ehangu cwmpas y drefn Gofrestr Prynwyr a Gwerthwyr.

**Rhoddir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a waned gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn ymwneud â Phrynwyr a Gwerthwyr:**

- Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y byddai ehangu'r drefn Prynwyr a Gwerthwyr presennol i gynnwys cynhyrchion sy'n cael eu dal o'r lan yn gwella'r gallu i olrhain ein bwyd môr ac y byddai, felly, yn gwella'r ffordd y mae pysgota'n cael ei reoli yng Nghymru yn gyffredinol.

- O'r herwydd, roedd llawer yn credu y byddai'r cynnig yn golygu y byddai modd arfer rheolaeth well ar bysgotwyr a genweirwyr hamdden drwy gynnig ffordd o gyflwyno rheoliadau statudol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi gwybod am bopeth y byddent yn ei lanio.

- Credai'r rhanddeiliaid hefyd y byddai'r cynnig hwn yn helpu i atal gweithgarwch anghyfreithlon megis gwerthu pysgod wedi'u brandio'n rhai a gafodd eu dal o'r lan, pan oeddent, mewn gwirionedd, yn bysgod a gafodd eu dal allan ar y môr gan gychod heb eu trwyddedu.


- Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y rheini a gyflwynodd sylwadau y byddai ehangu cwmpas y Drefn Prynwyr a Gwerthwyr yn gwella cynaliadwyedd, yn gwella'r gallu i olrhain, a hefyd ansawdd adnoddau rhynglanwol sy'n cael eu cynaeafu'n gyfreithlon. Byddai hynny, yn ei dro, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r diwydiant pysgota yng Nghymru.

**Rhoddir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a waned gan yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig yn ymwneud â Phrynwyr a Gwerthwyr:**

- Roedd dau o'r ymatebwyr yn erbyn y cynigion ac un yn ansicr, ond ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau ganddynt.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 6 – Dŵr

**Cwestiwn 23**
**Ydych chi'n cytuno â'r dull rydym yn ei gynnig, sef diwygio codi dŵr ar sail Cymru yn unig?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 35 |
| Anghytuno | 15 |
| Ddim yn siŵr | 31 |
| **Cyfanswm** | **81** |

Aeth dros 80 o ymatebion i'r ymgynghoriad i'r afael â'r cwestiwn hwn. Roedd rhyw 43% o'r rheini o blaid symud ymlaen ar sail Cymru yn unig ac roedd cyfran debyg naill ai'n ansicr neu wedi cyflwyno sylwadau. Roedd lleiafrif (19%) yn erbyn y cynnig.

Achubodd nifer o'r ymatebwyr ar y cyfle i ailadrodd sylwadau a gyflwynwyd ganddynt mewn ymgyngoriadau blaenorol ar ddiwygio trefniadau tynnu dŵr, yn hytrach na mynd i'r afael â'r cwestiwn o roi'r trefniadau hynny ar waith yng Nghymru. O'r herwydd, roedd rhai o'r rheini a oedd yn erbyn y cynnig yn mynegi eu gwrthwynebiad i fanylion cynigion i ddiwygio trefniadau tynnu dŵr a amlinellwyd mewn ymgyngoriadau blaenorol. Mynegodd rhai ohonynt bryderon am y posibilrwydd o gostau uwch i'r rheini sy'n tynnu dŵr yng Nghymru, y posibilrwydd o fod o dan anfantais fasnachol o gymharu â Lloegr a'r angen am ddeddfwriaeth ar dynnu dŵr ar lefel y DU er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu ar draws y DU.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr o blaid diwygio'r trefniadau tynnu dŵr:**

- Roedd amrywiaeth eang o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rheoleiddiwr, y cyrff anllywodraethol, yr awdurdodau lleol a busnesau, o blaid y cynnig.

- Cyflwynodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau am oblygiadau ymarferol rheoli adnoddau dŵr ar sail basnau afonydd oherwydd bod afonydd fel Afon Gwy, Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren yn croesi ffiniau. Pwysleisiwyd mewn nifer o'r ymatebion fod angen newid os yw Cymru am lwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- Dywedodd un o'r ymatebwyr nad oedd yn rhaid wrth ddarpariaethau deddfwriaethol cyffredin ar gyfer tynnu dŵr ond y byddai hynny'n fanteisiol, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n tynnu dŵr yng Nghymru ac yn Lloegr, ac o ran rheoli dalgylchoedd sy'n croesi ffiniau. Credai'r ymatebydd hwn y dylid parhau i ddatblygu polisi ar sail Cymru yn unig.
- Credai un o'r ymatebwyr fod angen lleihau cymaint ag y bo modd ar ansicrwydd yn y maes hwn er mwyn i gwmnïau dŵr fedru cynllunio'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau cyflenwadau cydnerth yn y tymor hir.

- Teimlai rhai o'r ymatebwyr y byddai'r cynnig o gymorth i gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, tra oedd eraill o'r farn fod bwlch amlwg yn y dulliau rheoleiddiol sydd eu hangen i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol os na cheir pwerau i reoli adnoddau dŵr yn well.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol gan ymatebwyr a oedd yn erbyn diwygio trefniadau tynnu dŵr:**

- Roedd problemau posibl ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr, a byddai'r modd y rheolir adnoddau dŵr yn arwain at oblygiadau y naill ochr a'r llall i'r ffin. Byddai'r ymatebydd yn ffafrio peidio â mabwysiadu dulliau rheoleiddio gwahanol oherwydd y gallai hynny arwain at fiwrocratiaeth a baich ychwanegol. Os cyflwynir newidiadau deddfwriaethol i'r trefniadau tynnu dŵr, dylid eu mabwysiadau ar yr un pryd yng Nghymru ac yn Lloegr;


- Cefnogwyd y safbwynt hwnnw hefyd gan ymatebydd a fynegodd bryderon y gallai anghysondebau ddatblygu pe bai Cymru yn diwygio trefniadau tynnu dŵr cyn i Loegr wneud hynny. Ni fyddai o blaid hynny.

**Cwestiwn 24**

**A ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru? A fyddai unrhyw un o'r cynigion newydd yn creu effaith/anghysondeb newydd neu annisgwyl?**

**Cwestiwn 25**

**A ydych chi'n credu y gallai unrhyw gynigion ychwanegol eraill wella'r sefyllfa ddeddfwriaethol / rheoleiddiol yn y tymor byr?**
**A oes angen unrhyw ddiwygiadau posibl eraill yng Nghymru, y bydd angen eu gweithredu yn fwy hirdymor o bosibl?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 64 |
| Anghytuno | 6 |
| Ddim yn siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **70** |

Aed ati i grynhoi'r ymatebion i'r ddau gwestiwn ar yr un pryd.

- Daeth 70 o ymatebion i law. Roedd 64 ohonynt yn cefnogi'r cynnig yn llwyr neu'n rhannol ac roedd 6 yn ei wrthwynebu.

  Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth yr isod:

  1. yr ymgymerwyr carthffosiaeth (a oedd o blaid y rhan fwyaf o'r cynigion neu a oedd wedi'u cyflwyno yn y lle cyntaf)
  2. awdurdodau lleol, perchenogion tir a dyfrffyrdd a grwpiau amgylcheddol (a oedd, ar y cyfan, o blaid y rhan fwyaf o'r cynigion, ond nid o reidrwydd bob un ohonynt)
  3. Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd o blaid y rhan fwyaf o'r cynigon.

- Dangosodd yr ymatebion fod cefnogaeth eang o blaid diwygio, symleiddio a gwella'r darpariaethau deddfwriaethol/rheoleiddiol sy'n ymdrin â dŵr a dŵr gwastraff. Os nad oedd yr ymatebwyr yn llwyr gefnogi'r cynigion, roeddent, at ei gilydd, yn mynegi pryderon neu'n gofyn am eglurhad pellach neu'n rhoi cefnogaeth amodol i agweddau penodol ar y cynigion.

- Yr agweddau mwyaf dadleuol ar y cynnig oedd y rheini a oedd yn rhoi hawliau i gwmnïau dŵr fynd ar dir neu eiddo trydydd partïon, a'r hawl i godi tâl ar berchenogion eiddo o dan amgylchiadau penodol, rhoi'r hawl i ymgymerwyr ollwng dŵr i gyrsiau dŵr sy'n eiddo i drydydd partïon a dileu'r hawl i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosydd.

- Pryderon a chwestiynau ynghylch sut yr oedd hawliau mynediad i dir neu eiddo trydydd parti yn canolbwyntio'n bennaf ar y canfyddiad bod y pwerau hynny'n cael eu dyblygu gyda sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, a sut y gellid rhoi mesurau yn eu lle i sicrhau y byddai'r pwerau hynny a'r pwerau i godi tâl ar drydydd partïon yn cael eu sefydlu. Fodd bynnag, ar yr amod y byddai'r materion hynny'n cael eu datrys, roedd y cynigion yn cael eu derbyn neu eu cefnogi'n gyffredinol.

- Awgrymwyd bod angen mynd ati i ddiwygio deddfwriaeth mewn ffordd fwy cynhwysfawr er mwyn gwella'r modd y mae dŵr wyneb a'r amgylchedd yn cael eu rheoli.


- Roedd peth gwrthwynebiad i'r cynnig i roi'r hawl i gwmnïau dŵr ollwng dŵr i ddyfrffyrdd sy'n eiddo i drydydd partïon oherwydd pryderon am yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd a chostau i berchenogion tir. Roedd gwrthwynebiad i'r cynnig i ddileu'r hawl i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus yn bennaf oherwydd y byddai'n llesteirio'r gwaith o adeiladau systemau draenio cynaliadwy.

- At ei gilydd, roedd cytundeb cyffredinol bod angen newid ac y gallai newidiadau cymharol hawdd i ddeddfwriaeth wella'r modd y mae carthffosiaeth a draenio'n cael eu rheoleiddio, ac y gallai newidiadau o'r fath hefyd symleiddio'r system cynllunio adnoddau dŵr.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 7 – Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

**Cwestiwn 26 − Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel ei bod yn:**

- **cael gwared ar yr angen i roi 7 diwrnod o rybudd i'r person sy'n meddiannu'r eiddo;**
- **cadw'r angen am warant;**
- **ehangu'r disgrifiad o'r wybodaeth y gellir ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei darparu;**
- **darparu'r gallu i symud deunydd o'r eiddo (a'i gadw) i'w archwilio, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i storio'n electronig?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 48 |
| Anghytuno | 5 |
| Ddim yn siŵr | 7 |
| **Cyfanswm** | **60** |

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr o blaid y cynnig:**

- At ei gilydd, roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid. Roedd yr holl awdurdodau lleol o blaid y cynnig. Teimlent y byddai'n helpu i leihau troseddau amgylcheddol ac y gallai atal unigolion sy'n cael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon ar hyn o bryd rhag gwneud hynny.

- Tynnodd eraill sylw at yr arbedion posibl o ran adnoddau i Cyfoeth Naturiol Cymru ac i'r Awdurdodau Heddlu.

- Roedd cefnogaeth gref oddi wrth yr ymatebwyr ac roeddent yn cydnabod:
  - y bydd y cynnig o gymorth i gynnal ymchwiliadau effeithiol ac effeithlon pan fo angen,
  - bod y cynnig yn un synhwyrol ac y bydd yn gwneud pethau'n symlach i'r rheoleiddiwr,
  - y gallai'r cynnig fod yn fodd i atal troseddau'n ymwneud â gwastraff.

- Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod angen i ddeddfwriaeth ar wastraff fod yn fwy llym ac y bydd y cynnig hefyd yn atal pobl sy'n cyflawni troseddau gwastraff rhag dinistrio

tystiolaeth. Er bod un o'r ymatebwyr o blaid y cynnig, roedd am gael eglurhad ynghylch sut y byddai'r drefn hon yn gweithio ochr yn ochr â rheolaethau cynllunio ac asesu ceisiadau cynllunio.

- Gan fod y cynnig, i bob golwg, yn golygu y byddid yn dechrau ysgwyddo rhai o bwerau'r heddlu, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr eraill a oedd o blaid y cynnig pam na ellid caniatáu i nifer cyfyngedig o staff CNC gael pwerau cwnstabl, yn yr un modd ag yn achos pysgodfeydd.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y pwerau mynediad presennol a'r pwerau presennol i fynd â thystiolaeth ymaith wedi cael effaith ar effeithiolrwydd gwaith gorfodi'r rheoleiddiwr, a phwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod y pwerau newydd arfaethedig yn mynd yn bellach na Deddf yr Amgylchedd 1995, ac y dylent gynnwys pwerau mynediad o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 er mwyn sicrhau cysondeb.


**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig:**

- Roedd un o'r ymatebwyr yn derbyn bod camau gorfodi yn rhan o'r ateb er mwyn mynd i'r afael â sbwriel ac roedd yn cydnabod bod gwerth mewn estyn camau o'r fath i rai mannau sy’n dir cyhoeddus; wedi dweud hynny, roedd ganddo bryderon am gyflwyno camau o'r fath ar gyfer aelwydydd domestig.

- Roedd un o'r rhanddeiliaid eraill o'r farn fod y gyfres o bwerau sydd ar gael i CNC ar hyn o bryd yn ddigon iddo fedru cyflawni ei swyddogaethau ymchwilio a gorfodi, a dywedodd y bydd angen cyflwyno camau i sicrhau na thanseilir y gofynion diogelu data.

Y duedd oedd mai unigolion nad oedd y cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol oedd yr ymatebwyr a atebodd 'ddim yn siŵr' neu 'ddim yn gwybod' a theimlent na allent wneud unrhyw sylw.

**Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel ei bod yn cynnwys y dewis i Awdurdodau Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio â chydymffurfio â hysbysiadau yn hytrach na gorfod erlyn drwy'r llysoedd?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 54 |
| Anghytuno | 10 |
| Ddim yn siŵr | 2 |
| **Cyfanswm** | **66** |

At ei gilydd, roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blaid y cynnig.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig:**

- Nododd nifer o'r ymatebwyr fanteision o ran effeithlonrwydd, megis symlrwydd y broses, lleihau'r baich ar y system llysoedd a'r ffaith y byddai'r awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'u dyletswyddau mewn perthynas â gwastraff mewn ffordd fwy effeithiol.
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr yn benodol y byddai'n helpu i wella cyfraddau ailgylchu, ac roedd y sylwadau a wnaed gan nifer o ymatebwyr hefyd yn awgrymu hynny.
- Nodwyd bod nifer o'r ymatebwyr wedi crybwyll y manteision ariannol, hynny yw, roedd cyfle i greu refeniw, ac y byddai defnyddio'r broses hon yn rhatach na'r trefniadau presennol. Byddai'n rhesymol cymryd bod y rheini sy'n cyfeirio at leihau'r baich ar y llysoedd a bod yn fwy effeithiol wrth gyflawni dyletswyddau yn cyfeirio at fanteision ariannol Hysbysiadau Cosb Benodedig.
- Nodwyd hefyd yn y sylwadau am refeniw mai'r dymuniad oedd i unrhyw refeniw gael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am wastraff a/neu gael ei ddefnyddio i dalu costau gweinyddu Hysbysiadau Cosb Benodedig.
- Nodwyd hefyd fod cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer rhai tramgwyddau yn cael gwared ar yr elfen o droseddu a bod hynny'n beth da.
- Dywedodd un o'r ymatebwyr fod cyflwyno proses o gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ledled Cymru yn gyfle da i gynnal ymgyrch i hyrwyddo cysondeb ar draws yr holl awdurdodau lleol ac o ran y neges a roddir i'r cyhoedd.

- Er bod ysgafnhau'r baich ar y system llysoedd yn cael gwerthfawrogiad eang, nododd nifer o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig fod y system llysoedd yn rhoi hyder i bobl oherwydd ei bod yn dryloyw ac yn cynnig proses apelio pan fo angen. Dylai'r system llysoedd barhau i fod ar gael ar gyfer yr achosion anoddaf pan fetha popeth arall.

**Mynegodd nifer o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig y pryderon a ganlyn:**

- A oedd gan yr awdurdodau lleol yr adnoddau i gyflawni'r dyletswyddau hyn a'r gwaith addysgu a'r hyfforddiant codi ymwybyddiaeth y byddai eu hangen er mwyn i'r hyn a gynigir weithio'n iawn.
- Gallai'r cynnig arwain at fwy o dipio anghyfreithlon.
- Gallai bod yn eithafol wrth orfodi gael effaith andwyol, h.y. peidio â defnyddio digon ar y drefn neu ddefnyddio gormod arni. Mynegwyd pryder penodol am y posibilrwydd o gyhoeddusrwydd a sylw negyddol pe bai awdurdodau yn rhy awyddus i gymryd camau gorfodi.
- Nododd un ymatebydd a oedd o blaid y cynnig mai dim ond os bydd y cyhoedd yn gwybod bod y camau gorfodi'n cael eu cymryd yn aml y byddent yn atal troseddau sy'n ymwneud â gwastraff, oherwydd y byddai'r ffaith bod y ddirwy'n un gymharol isel yn golygu y byddai rhai'n ei mentro hi beth bynnag.
- Gallai arwain at sefyllfa lle byddai unigolion yn camddefnyddio biniau gwastraff cyhoeddus.
- Ansicrwydd am faich y prawf a phrofi bod y drosedd wedi'i chyflawni.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig:**

- Mae'n ffordd lawdrwm o fynd i'r afael â'r drosedd o dan sylw.
- Ni ddylid defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer y math hwn o drosedd nes y bydd yr un systemau casglu, a mynediad cyfartal i wasanaethau, ar gael ledled Cymru.
- Gallai hyn gosbi pobl sydd wedi torri'r rheolau'n anfwriadol, er enghraifft, pan fônt yn sâl.
- Gallai olygu y byddai mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn mynd i safleoedd tirlenwi os bydd pobl yn ofni eu bod wedi camddeall.


**Cyfleoedd neu gynigion**

- Awgrymwyd y gellid defnyddio "Hysbysiadau Tâl Cosb" yn lle Hysbysiadau Cosb Benodedig.

- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hefyd eu bod am weld Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau eraill lefel isel, yn enwedig torri hawliau tramwy.

**Cwestiwn 28 − Cyflwyno Hysbysiadau Tâl Cosb ar gyfer taflu sbwriel o gerbydau.**

Cafwyd 116 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.




| | |
|---|---|
| Cytuno | 107 |
| Anghytuno | 9 |
| Ddim yn siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **116** |

Roedd mwyafrif llethol y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid y pwerau newydd ac er na roddodd y rhan fwyaf ohonynt resymau penodol, roedd cefnogaeth amlwg i'r cynnig hwn.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr o blaid y cynnig:**

- Mae'n debyg y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar adnoddau'r awdurdodau lleol (er enghraifft, lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chlirio sbwriel ar ochr y ffordd), y gallai atal pobl rhag taflu sbwriel o gerbydau ac y gallai helpu i fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau a wynebir gan Swyddogion Gorfodi ar hyn o bryd o ran rheidrwydd *i brofi y tu hwnt i bob amheuaeth resymol fod yr unigolyn wedi cyflawni'r drosedd. Bydd newid ffocws drwy roi cyfrifoldeb ar berchennog y cerbyd yn golygu y bydd camau gorfodi'n cael eu cymryd yn amlach.*

- Dim ond pe bai proses apelio ar gael y byddai un o'r ymatebwyr o blaid y cynnig.

- Credai ymatebwyr eraill mai rhan yn unig o'r ateb oedd cyflwyno dirwyon newydd ac awgrymwyd y dylid gweithredu mewn ffordd fwy "holistaidd" er mwyn ategu camau gorfodi, er enghraifft, ymgyrchoedd addysgu a mwy o ymwybyddiaeth am ganlyniadau taflu sbwriel.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig:**

- Gallai pŵer o'r fath olygu y byddai ceidwad cofrestredig cerbyd yn cael ei ddirwyo am drosedd na chyflawnodd. Gofynnodd un a fyddai'r swm a godid drwy unrhyw ddirwy yn talu am gostau gweithredu'r pwerau newydd.

- Roedd gan yr ymatebwyr bryderon y gallai fod yn anodd gorfodi'r pŵer, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac roedd eraill yn cwestiynu'r costau posibl a allai fod yn gysylltiedig â sefydlu'r system gosb newydd.

- Gofynnodd un ymatebydd a allai gweithredu fel hyn arwain at nifer mawr o heriau cyfreithiol a mynegodd bryderon hefyd am y posibilrwydd y byddai'r awdurdodau lleol yn defnyddio contractwyr preifat.

**Achubodd rhai o'r ymatebwyr ar y cyfle i godi'r materion penodol a ganlyn:**

- Roedd pedwar o'r ymatebwyr yn cwestiynu'r cynnig i greu cyfraith sifil yn hytrach na chyfraith droseddol, gan nodi y dylai unrhyw bwerau newydd fod yn gydnaws â'r rheini ar gyfer troseddau eraill yn ymwneud â sbwriel yr ymdrinnir â nhw drwy'r broses droseddol.

- Gofynnodd sawl un o'r ymatebwyr pa dystiolaeth fyddai'n dderbyniol er mwyn profi bod trosedd wedi'i chyflawni a gofynnwyd hefyd am eglurhad ynglŷn â'r rhan a fyddai gan deledu cylch cyfyng i'w chwarae yn hyn o beth.


- Nodwyd mewn rhai o'r ymatebion y byddai'n arbennig o anodd dibynnu ar dystiolaeth teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd gwledig (lle mae sbwriel ar ochr y ffordd yn broblem benodol) a theimlai ymatebydd arall fod angen defnyddio mwy ar y camerâu sy'n bodoli eisoes yng nghanol trefi.

- Awgrymwyd yn ymateb un o'r awdurdodau lleol y dylid estyn pwerau gorfodi i rai o swyddogion eraill yr awdurdodau lleol, er enghraifft, y staff glanhau a thimau priffyrdd.

- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y problemau a achosir gan dipio anghyfreithlon ac at yr angen am bwerau i fynd i'r afael â'r broblem hon. Nodwyd sut y gallai'r pwerau arfaethedig helpu gyda chamau gorfodi.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 8 – Rheoleiddio Mwy Craff

**Cwestiwn 29: A ddylid cyflwyno mesurau sylfaenol fel ffordd o reoleiddio gweithgareddau risg isel? Gofynnwyd i ymatebwyr fynegi barn am y math o weithgareddau a fyddai'n elwa ar gael eu rheoleiddio drwy fesurau sylfaenol.**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 46 |
| Anghytuno | 20 |
| Ddim yn siŵr | 22 |
| **Cyfanswm** | **88** |

Ymateb cymysg a gafwyd i'r cynnig ynglŷn â Rheoleiddio Mwy Craff a oedd yn gofyn i ymatebwyr fynegi barn am rôl mesurau sylfaenol. Roedd enghreifftiau yn yr ymgynghoriad o nifer o weithgareddau lle y gallai mesurau sylfaenol fod yn briodol:

- ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig â rheoli tir
- gofynion y gyfundrefn drwyddedu ar gyfer cwympo coed er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn dal i gael ei ddiogelu;
- ym maes amaethyddiaeth, er mwyn diogelu ansawdd dŵr, aer a phridd.

Cafwyd 197 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a phriodolwyd 109 i ymgyrch yr NFU yn gwrthwynebu'r cynnig mesurau sylfaenol. Mae 46 o'r 88 o ymatebion unigol yn cefnogi mesurau sylfaenol sy'n cael eu cyflwyno fel dull o reoleiddio gweithgareddau risg isel.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr o blaid cyflwyno mesurau sylfaenol:**

- Os sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei gynnal yn unol â safonau penodol yw'r nod, gallai weithio'n dda, a byddai hefyd yn werthfawr o ran lleihau'r angen i lenwi gwaith papur er mwyn bodloni gofynion cofnodi.

- Gallai mesurau sylfaenol fod yn ffordd ddefnyddiol o reoleiddio gweithgareddau risg isel yn y dyfodol os oes tystiolaeth bod mesurau gwirfoddol a chefnogol wedi methu. Mae'n bosibl y bydd Brexit yn gyfle i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddiol mewn ffordd fwy cydlynus.

- Roedd potensial i wneud defnydd eang o fesurau sylfaenol ar gyfer gweithgareddau heblaw rhai amaethyddol yn unig, a dylai unrhyw gynigion gynnwys gweithgareddau masnachol eraill sy'n cael effaith andwyol ar reoli tir, e.e. rasio motocross.

- Cytuno y gallai dull gweithredu ar sail risg a fydd yn golygu y bydd modd arfer hyblygrwydd wrth reoli tir, ond a fydd hefyd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i gael ei ddiogelu, yn ddewis amgen o dan amgylchiadau penodol yn lle'r gyfundrefn drwyddedu bresennol ar gyfer cwympo coed.

- Byddai defnyddio Mesurau Sylfaenol yn ffordd ddefnyddiol o addysgu'r rheini sy'n gyfrifol am reoli tir am yr effaith y gallai eu gweithgareddau eu cael ar adnoddau naturiol ac ar yr amgylchedd.

- Gallai defnyddio mesurau sylfaenol a dull o weithredu sy'n seiliedig ar risg fod yn fanteisiol pan fo gweithrediadau ac ymyriadau yn debygol o fod yn rhai ar raddfa fach a phan fo cymhlethdod a chost cynllun rheoli hirdymor yn afresymol ar hyn o bryd. Gallai caniatáu i rai coetiroedd gael eu rheoli o dan fesurau sylfaenol neu Reolau Rhwymo Cyffredinol helpu i ddatrys hynny a sicrhau bod coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol yn cael eu rheoli unwaith eto. Wedi dweud hynny, rhaid sicrhau mai yn lle'r system trwyddedu cwympo coed y defnyddir mesurau sylfaenol neu Reolau Rhwymo Cyffredinol (mae angen i'r ddau gael eu diffinio'n well) ac nid yn ychwanegol ati.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol gan ymatebwyr a oedd yn erbyn cyflwyno mesurau sylfaenol:**

- Gallai cyflwyno Mesurau Sylfaenol greu cosbau anghymesur.

- Yn gwrthwynebu cynigion ar gyfer safonau gofynnol ar gyfer pridd, aer a dŵr. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig haen gwbl newydd o reoleiddio heb fanylu o gwbl ar sut y byddai'n gweithio.

- Ddim yn credu bod y gweithgareddau, megis llygredd gwasgaredig a achosir gan amaethyddiaeth yn weithgaredd risg isel nac ychwaith y byddai sancsiynau sifil neu gosbau penodedig yn newid ymddygiad

- Mae angen rhagor o eglurder er mwyn esbonio sut y byddai'r sancsiwn sifil yn cael ei ddefnyddio.

- Argymell y dylid darparu cyngor a chanllawiau, ynghyd â chymhellion priodol, law yn llaw â chyfle i ennill cydnabyddiaeth er mwyn newid ymddygiad. Y dull y dylid ei fabwysiadu fyddai mesurau gwirfoddol ar safleoedd penodol a fyddai'n mynd i'r afael â phroblemau drwy roi cyngor, drwy reoli tir a rhoi grantiau cyfalaf er mwyn adlewyrchu gwybodaeth a fyddai'n cael ei chasglu dros amser.

- Roedd yr aelodau'n cwestiynu'r angen am fesurau sylfaenol er mwyn ymateb i'r problemau llygredd presennol (Dŵr, Aer a Phridd) oherwydd y credir bod y maes hwn yn un sy'n cael ei reoleiddio'n dynn eisoes.

- Wedi dweud hynny, yn eu hymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd rhai o'r cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant ffermio, y diwydiant coedwigaeth ac elusennau/grwpiau cadwraeth yn barod i drafod gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried a datblygu cynigion manwl a fyddai'n sail i ymgynghoriad ar wahân ar fesurau sylfaenol.

**Cyflwynwyd y sylwadau a'r awgrymiadau isod gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno:**

- Gallai dull o weithredu ar sail risg fod yn ddewis amgen o dan rai amgylchiadau yn lle'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r drefn bresennol o drwyddedau cwymp coed. Mae'r broses drwyddedu sydd ohoni yn cymryd gormod o amser a gallai mesurau sylfaenol, a fyddai'n rhan o'r cynllun rheoli coetir, fod o fudd i'r naill ochr a'r llall.

- Awgrym nad yw pob ffermwr yn llygru ac mai'r rheini sy'n gyfrifol am unrhyw lygredd y dylid eu dal i gyfrif.


- Nid oedd ganddynt ddigon o wybodaeth a chais i gael cyfrannu pe bai cynigion pellach yn cael eu datblygu.

- Dylai'r holl weithgareddau awyr agored sy'n cael effaith ar yr amgylchedd (ac eithrio cerdded, rhedeg ar draws gwlad etc.) gael eu trwyddedu yn yr un modd â genweirio.

- Pryder ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni hyn ac er mwyn i awdurdodau gorfodi fod yn effeithiol.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 9 –Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

**Cwestiwn 30 – A ddylid estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 19 |
| Anghytuno | 13 |
| Ddim yn siŵr: | 15 |
| **Cyfanswm** | **47** |

Ymateb cymysg a gafwyd i'r cynnig i estyn awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (TTAC).

Daeth cyfanswm o 47 o sylwadau i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac roedd 19 o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Nid oedd 13 o'r ymatebwyr o blaid y cynnig ac roedd 15 o'r ymatebwyr heb benderfynu.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr o blaid y cynnig:**

- Bydd estyn awdurdodaeth TTAC yn golygu y bydd anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid yn cael eu datrys yn gynt ac yn fwy buan a bydd hefyd yn lleihau costau.
- Yr unig ffordd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddatrys anghydfod yw drwy gymrodeddu. Mae rhyw 80% o dir Cymru yn cael ei ffermio, ac mae cyfran sylweddol ohono'n cael ei reoli o dan gytundeb tenantiaeth. Felly, gall natur y berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid gael effaith fawr ar reoli adnoddau naturiol. Mae unrhyw fesur a fydd yn golygu y bydd yn haws datrys anghydfodau yn debygol o gynnig manteision ychwanegol o ran rheoli adnoddau naturiol.
- Erbyn hyn, nid yw cymrodeddu'n ffordd gyflym na rhad o ddatrys anghydfod a byddai buddsoddiad ychwanegol cymharol fach i gyllido TTAC yn arwain at ostyngiad sylweddol yng nghostau cyffredinol y rheini a fyddai'n cael eu gorfodi i ddefnyddio cymrodeddu.

- Byddai TTAC yn golygu y byddai cyfiawnder o fewn cyrraedd i ragor o bobl a byddai'n ffordd ddibynadwy ac effeithlon o ddatrys anghydfod.

- Mae'r cynnig yn un buddiol a dylid estyn yr awdurdodaeth ond gan gadw'r opsiwn i benodi'n breifat.

**Ceir crynodeb isod o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig:**

- Fel arfer, syrfewyr sy'n cynrychioli partïon mewn achosion o gymrodeddu. Os caiff materion eu cyfeirio at y Tribiwnlys fel mater o drefn, mae pryder y bydd partïon yn fwy tebygol o gyfarwyddo bargyfreithwyr. Byddai hynny nid yn unig yn arwain at gostau uwch ond byddai hefyd yn golygu y byddai partïon yn llai tebygol o elwa ar brofiad ymarferol ac arbenigedd yn y maes dan sylw. .

- Nid yw TTAC yn breifat, yn wahanol iawn i gymrodeddu. Gall cyfrinachedd fod yn fantais wirioneddol yn aml i'r cleientiaid hynny nad ydynt yn awyddus i faterion gael eu trafod mewn fforwm cyhoeddus. Nid yw'r cynnig yn yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael â'r cwestiwn canolog o pam ddylai'r trethdalwr dalu am anghydfodau preifat rhwng landlordiaid a thenantiaid.

- Roedd un ymatebydd yn cydnabod y gallai creu proses ddi-gost mewn tribiwnlys gael gwared ar gymrodeddu ac roedd yn credu mai ffioedd cyfreithiol yw'r rhan fwyaf o'r costau a ysgwyddir yn ystod y broses hon ac na fyddai'r newid hwn yn effeithio arnynt. Gallai proses ddi-gost mewn tribiwnlys annog rhagor o bobl i gyfeirio anghydfodau ato yn lle mynd ati i'w setlo drwy drafod.

- Tynnodd un ymatebydd sylw at bryderon am allu TTAC i lwyddo heb gyllid ychwanegol. Mae'n anochel y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu'r adnoddau priodol a'r cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn.

- A fyddai gan aelodau TTAC yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol i ymgymryd â'r gwaith hwn.

**Cyflwynwyd y sylwadau isod gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno:**

- Wrth gyflwyno'u hymatebion, dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod digon am y pwnc i fedru cyflwyno sylwadau.


- Ehangu'r cynnig i gymrodeddu fel ei fod yn cynnwys yr holl ystyriaethau sy'n ymwneud â rheoli tir, gan gynnwys rheoli coedwigoedd a choetiroedd.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 10 – Bywyd gwyllt

Daeth cyfanswm o 89 o ymatebion i law. Daeth niferoedd tebyg o ymatebion i law oddi wrth unigolion, llywodraeth leol neu asiantaethau, cymdeithasau a'r trydydd sector. Mewn ymatebi i gynigion (49-55) neu gwestiynau (31-36), roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn gryf yn erbyn defnyddio maglau yn gyffredinol a theimlent y dylid eu gwahardd yn llwyr.

Nid oedd gwahardd maglau yn un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad, felly nid yw'r ymgynghoriad hwn yn rhoi inni ddarlun cyflawn o farn pobl am wahardd maglau, o ran bod o blaid neu yn erbyn.

**Cwestiwn 31: Ydych chi'n credu bod 'Cod Llywodraeth Cymru ar yr Arfer Orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid' yn gwella safonau lles anifeiliaid? Oes gennych chi dystiolaeth ar effeithiolrwydd y Cod yng Nghymru?**





| | |
|---|---|
| Cytuno | 21 |
| Anghytuno | 9 |
| Ddim yn siŵr | 40 |
| Gwahardd Maglau | 19 |
| **Cyfanswm** | **89** |

- Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon y gallai'r anifeiliaid a dargedir gael eu lladd ac y gallai anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol gan faglau ar brydiau. Roedd tystiolaeth i'r perwyl hwnnw mewn data a oedd yn dangos bod yr RSPCA wedi cael gwybod am 149 o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â maglau rhwng 2012 a mis Mehefin 2017. Ymddengys fod cynnydd yn nifer y digwyddiadau o'r fath rhwng 2015 a 2016.

- Pwysleisiodd un neu ddau o'r ymatebwyr ei bod yn anodd asesu pa mor effeithiol oedd y Cod heb wybod lle a pha mor aml y mae maglau'n cael eu defnyddio.

- Credai eraill fod y Cod yn llwyddo i wella safonau ond bod angen rhagor o amser arno i ymwreiddio.

**Cwestiwn 32: Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol cael eglurder ynghylch y term "o leiaf unwaith bob dydd"?**





| | |
|---|---|
| Cytuno | 50 |
| Anghytuno | 10 |
| Ddim yn siŵr | 26 |
| Gwahardd maglau | 3 |
| **Cyfanswm** | **89** |

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (58%) yn credu y byddai hynny'n fuddiol.

- Credai cyfran fach o'r ymatebwyr y byddai cyfyngu'r cyfnod amser i 24 awr yn broblem yn ymarferol, ac awgrymodd un ymatebydd y dylid archwilio maglau bob 12 awr. Aeth dau o'r ymatebwyr ati'n benodol i bwysleisio pa mor bwysig oedd egluro'r term presennol.

- Mewn cyferbyniad â hynny, roedd 12% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig ac roedd rhai ohonynt yn credu bod y term eisoes yn glir ac yn ddiamwys.

**Cwestiwn 33: Ydych chi'n cytuno y byddai gofyniad i symud anifail sydd wedi'i ddal yn cael gwared ar amwysedd mewn perthynas ag archwilio maglau'n rheolaidd?**





| | |
|---|---|
| Cytuno | 42 |
| Anghytuno | 13 |
| Ddim yn siŵr | 29 |
| Gwahardd maglau | 5 |
| **Cyfanswm** | **89** |

- Roedd hanner yr ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Dywedodd rhai a oedd o blaid y cynnig y gallai gofyniad o'r fath fod yn fodd i sicrhau bod maglau'n cael eu harchwilio bob 24 awr ac y gallai roi diwedd ar unrhyw amwysedd, er y byddai'n anodd plismona hyn.

- Roedd 155 o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig hwn. Mynegodd un bryderon am y rhwystrau ymarferol a fyddai'n gysylltiedig â chasglu a chario carcasau oherwydd y gallai eu hoglau effeithio ar faglau eraill y byddai angen eu harchwilio.

**Cwestiwn 34: A ddylid cyflwyno gofyniad i beidio â meddu ar neu werthu magl hunan-gloi? A fyddai hynny'n arwain at unrhyw anfanteision?**





| | |
|---|---|
| Cytuno | 42 |
| Anghytuno | 12 |
| Ddim yn siŵr | 29 |
| Gwahardd maglau | 6 |
| **Cyfanswm** | **89** |

- Roedd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr o blaid y cynnig hwn ac yn croesawu'r syniad. Gallai fod yn fodd i roi diwedd ar arferion gwael. Heblaw hynny, awgrymodd ymatebwyr y dylid gwahardd pobl rhag gwerthu neu feddu ar unrhyw fagl nad oedd yn cydymffurfio â'r Cod gyda'r bwriad o'i defnyddio.

- Roedd 14% o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig hwn a dadleuodd un y gallai ymarferydd fod mewn sefyllfa lle byddai magl a oedd gynt yn gyfreithlon yn ei chloi ei hun. Teimlai eraill ei bod yn anodd diffinio maglau hunan-gloi.

**Cwestiwn 35: A ddylid ei gwneud yn drosedd i unrhyw un ddefnyddio neu feddu ar fagl ar unrhyw dir heb ganiatâd y perchennog/deiliaid er mwyn diogelu perchnogion/deiliaid rhag i faglau gael eu gosod ar eu tir heb ganiatâd?**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 56 |
| Cytuno, ond am weld gwaharddiad | 5 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn siŵr | 21 |
| **Cyfanswm** | **86** |


- Roedd 65% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Wedi dweud hynny, mynegodd un o'r rhanddeiliaid bryder bod *'y cynnig hwn yn creu trosedd herwhela mewn un o feysydd y gyfraith sy'n peri dryswch eisoes'.*

- Roedd 6% o'r ymatebwyr yn meddwl ei bod yn rhesymol cyflwyno trosedd o osod maglau ar dir heb ganiatâd ond nid oeddent o blaid cyflwyno trosedd o fod yn meddu ar fagl heb ganiatâd.

- Roedd 5% o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig hwn oherwydd bod ganddynt bryderon am y gallu i orfodi ac i blismona darpariaethau o'r fath.

**Comment [DAP(E&S1]:** Check numbers on English

**Cwestiwn 36: A ddylid rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion er mwyn rheoleiddio maglau? A fyddai hynny'n ffordd effeithiol a hyblyg o reoli'r defnydd o faglau yn y dyfodol? Ystyriwch a ddylai Gweinidogion Cymru gael pŵer eang, drwy Orchymyn, i bennu gofynion pellach megis archwilio, labelu a phennu y dylai defnyddwyr maglau gael eu hyfforddi.**




| | |
|---|---|
| Cytuno | 27 |
| Cytuno, ond am weld gwaharddiad | 4 |
| Anghytuno | 21 |
| Ddim yn siŵr | 31 |
| **Cyfanswm** | **83** |

- Roedd 32% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Roedd un o'r ymgyngoreion yn croesawu'r cyfle oherwydd y byddai'n ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i reoleiddio'r defnydd o faglau yn y dyfodol. Tynnodd ymatebydd arall sylw at y ffaith y byddai hynny'n caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau i ddyluniad maglau ac i'r ffordd y'u defnyddir.

- Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn bryderus y gallai pŵer mor eang arwain at ddileu'r hawl i osod maglau yn gyfan gwbl. Roedd eraill yn erbyn y cynnig oherwydd eu bod yn teimlo y dylid rhoi cynnig ar weithredu'n wirfoddol drwy'r Cod yn gyntaf cyn cyflwyno deddfwriaeth.

- Roedd 5% o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig hwn yn gobeithio hefyd y byddai maglau'n cael eu gwahardd yn y pen draw.

***Cawsom ymatebion i gynigion 51 a 52 hefyd yn ogystal ag atebion i'r cwestiynau hyn.***

***Roedd cynnig 51 yn dweud: A ddylai'r rheolaethau ar faglu yn adran 11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fod yn gymwys i unrhyw faglau hunan-gloi ac nid, fel y mae ar hyn o bryd, dim ond i'r rheini sy'n fath o fagl a osodir yn y fath fodd fel mai ei nod yw achosi anaf corfforol i unrhyw anifail gwyllt sy'n dod i gysylltiad â hi.***

- Credai rhai o'r ymatebwyr y gallai defnyddio'r term hunan-gloi fod yn broblem oherwydd nad yw'n cael ei ddiffinio'n glir. Eu hawgrym nhw oedd y byddai

cydymffurfio â'r Cod a defnyddio magl a fyddai'n cydymffurfio â'r Cod yn fwy effeithiol.

***Roedd cynnig 52 yn dweud: A ddylid gwneud addasiad i'r drosedd yn adran 11(2)(a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, o osod unrhyw fagl, trap, dyfais drydanol neu wenwyn sy'n debygol o (yn hytrach na gyda'r bwriad o) achosi niwed i anifeiliaid a restrir yn Atodlen 6 o'r Ddeddf.***

- Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn, oherwydd y byddai'n tynhau'r gyfraith a gorfodi. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig oherwydd eu bod yn pryderu am achosion posibl o "gamweinyddu cyfiawnder" ac am y posibilrwydd o ddehongliadau cyfreithiol eang o "tebygol". Dywedodd un o'r ymgyngoreion y gallai cynnwys y geiriau "fel eu bod yn debygol" yn lle “fel mai ei nod yw" gyfeirio at ddal yn ddamweiniol.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Pennod 11 – Asesu Cynigion Polisi

Mae nifer o sefydliadau ac ymatebwyr unigol wedi defnyddio'r adran hon o'r ymgynghoriad i roi rhagor o wybodaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law mewn ymateb i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn y bennod hon.

**Cwestiwn 37**

**A oes gan ymgyngoreion unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â chostau a manteision unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon?**

- Y cynigion yn ymwneud â mynediad enynnodd y diddordeb mwyaf ac aeth nifer o'r ymatebwyr ati drachefn i gyflwyno eu hasesiadau blaenorol o blaid neu yn erbyn y cynigion. Roedd nifer o blaid y syniad o wella mynediad i gefn gwlad oherwydd y manteision i iechyd a llesiant, ac roeddent hefyd yn cydnabod y cyfleoedd y byddai hynny'n ei gynnig ym maes twristiaeth. Er hynny, mynegwyd pryderon am oblygiadau hynny o ran adnoddau, am yr effeithiau negyddol ar dir a hawliau preifat ac ar ecosystemau bregus Cymru mewn afonydd a llynnoedd.

- At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr am weld gwerthusiad manylach o gostau a manteision a beirniadwyd y ffaith nad oedd asesiadau effaith ar gael. Roedd cyfran fawr o'r ymatebion yn crybwyll effaith Brexit, a oedd yn cael ei ystyried yn fygythiad i adnoddau naturiol, ond hefyd yn gyfle i weithredu mewn ffyrdd newydd arloesol ac effeithlon.

- Nodwyd bod diffyg adnoddau yn rhwystr mawr a fyddai'n ein hatal rhag rhoi'r cynigion ar waith. Teimlai llawer o'r ymatebwyr y dylid neilltuo adnoddau er mwyn gwella gallu CNC i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Roedd rhai o'r ymgyngoreion yn bryderus am y baich ychwanegol y byddai'r cynigion sy'n ymwneud â mynediad a'r môr yn ei roi ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Hefyd, bernid bod llawer o'r cynigion yn drwm ar adnoddau ac y gallai hynny hefyd danseilio gallu busnesau i ddatblygu ffrydiau incwm newydd yn y dyfodol.

- Un feirniadaeth o bwys a grybwyllwyd gan un o'r ymatebwyr oedd bod CNC yn aneffeithiol ac nad oedd y fframwaith deddfwriaethol presennol yn rhoi canlyniadau gweladwy. Dywedodd ymateb arall nad oedd yr ymgynghoriad yn ystyried cynhesu byd-eang a'r effaith gynyddol y mae llygredd amaethyddol yn ei chael. Teimlai un o'r ymgyngoreion y gallai'r cynigion, a dweud y gwir, arwain at gamreoli adnoddau naturiol.

- Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at fanteision mwy hirdymor, megis costau cynnal a chadw is, defnydd mwy cynaliadwy o rwydweithiau hawliau tramwy, llai o alwadau croes i'w gilydd, a llai o erydu oherwydd gorddefnydd.

Rydym wedi cyfuno'r crynodeb ar gyfer y ddau gwestiwn a ganlyn.

**Cwestiwn 38**

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r awgrymiadau polisi yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid sicrhau mwy o effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 39**

**Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- Ni chrybwyllodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg a dywedodd rhai ohonynt nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Dywedwyd mewn un ymateb nad oedd y goblygiadau i'r Gymraeg wedi cael eu trafod yn benodol.

- Credai un o'r ymatebwyr y byddai mwy o fynediad i gefn gwlad Cymru yn cael effaith gadarnhaol o ran mwy o sylw i'r Gymraeg ac i dirwedd a threftadaeth Cymru.

- Nid oedd pawb o'r un farn. Dywedodd rhai o'r ymgyngoreion fod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth ar draul y Saesneg, sy'n cael ei siarad gan fwyafrif y boblogaeth, a theimlai rhai fod y Gymraeg o dan fygythiad a bod angen gwneud mwy i'w gwarchod. Crybwyllwyd y gallai twristiaeth fod yn fygythiad os nad yw'n cael ei rheoli.

- Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai'r Gymraeg fod yn orfodol ar gyfer swyddi yn y sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chefn gwlad. Roedd gan eraill farn debyg, gan ddweud y dylid ymddiried mewn pobl leol i reoli'u tir, gan droi cefn ar arferion a welwyd yn y gorffennol lle'r oedd dieithriad yn dod i mewn o'r tu allan i ddylunio prosiectau ac i'w rhoi ar waith. Byddai hynny'n helpu i sicrhau dyfodol y Gymraeg a diwylliant Cymru. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog.

- Tynnwyd sylw mewn un o'r ymatebion at y cysylltiad agos rhwng yr iaith frodorol a'r byd naturiol, gan awgrymu y dylid eu gwerthfawrogi a'u dathlu'n fwy yng Nghymru.

**Cwestiwn 40 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gofynnir ichi eu nodi ar y ffurflen ymateb.**

Mewn ymateb i gwestiwn 40, achubodd yr ymatebwyr ar y cyfle i roi rhagor o wybodaeth i ategu'r safbwyntiau a fynegwyd ganddynt mewn ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad.

**Dyma'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:**

- Er bod nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod amseriad a chwmpas yr ymgynghoriad yn anodd eu rheoli, roedd nifer ohonynt yn croesawu'r ymgynghoriad ac yn awyddus i drafod ac i gydweithio â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i ddatblygu manylion y cynigion.

- Yn ogystal â'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cynigion yn ymwneud â mynediad, awgrymodd ymatebwyr fod angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau ei bod yn hyblyg ac yn ymarferol. Tynnwyd sylw ar yr un pryd at bryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ac at gostau cynnal a chadw llwybrau troed. Hefyd, roedd rhai o'r farn fod y cynnig i godi'r cyfyngiad ar wersylla yn un byrbwyll heb asesiad llawn o effaith, yn enwedig o gofio'r profiad a gafwyd yn yr Alban a'r materion cysylltiedig yn ymwneud â diogelwch cyhoeddus, gwarchod cynefinoedd sensitif a'r amgylchedd yn gyffredinol.

- Roedd nifer o'r ymgyngoreion o blaid hyrwyddo economi gylchol a chyflwyno rheoleiddio mwy craff, ac roeddent hefyd yn deall y manteision cymdeithasol a'r manteision o ran iechyd sy'n gysylltiedig â gwella mynediad i gefn gwlad. Fodd bynnag, roedd pryder nad yw mynediad ar gael i'r un graddau i bob grŵp gwarchodedig a bod yr agwedd hon yn un na chafodd ei hystyried yn ystod yr ymgynghoriad.

- Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at bwysigrwydd y ddogfen ganllawiau 'Trwy Bob Dull Rhesymol: Mynediad Lleiaf Rhwystrol i'r Awyr Agored'. Nodwyd mewn un ymateb fod gyrwyr ceffylau yn grŵp a gafodd ei hepgor, a dywedwyd mewn un arall y dylid, wrth fapio mynediad, gynnwys cilffyrdd a ffyrdd diddosbarth er mwyn helpu beicwyr modur. Roeddent am weld mwy o eglurder hefyd am lwybrau sydd â statws ac awgrymwyd y dylid gwrthdroi effeithiau Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ar fynediad i gerbydau modur.

- Mynegwyd pryderon hefyd am gyflwr y llwybrau troed sy'n bodoli eisoes ar draws siroedd Cymru, gan ddweud nad ydynt, o bosibl, yn addas fel llwybrau ceffylau a llwybrau beicio, a'u bod yn peryglu diogelwch.

- Yn ogystal â chyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r adran ar goedwigaeth, gwnaeth rhai o'r ymatebwyr sylwadau pellach am y cynigion yn ymwneud â choedwigaeth, gan alw'n benodol am fwy o ystyriaeth i ardaloedd newydd o goetir. Er bod cynefinoedd mewn coetir hynafol yn cael eu gwarchod i ryw raddau o dan y system gynllunio, dywedodd un o'r ymatebwyr ei bod yn hawdd diystyru'r rheolau hynny a bod gwendidau wrth eu gorfodi.

- Roedd un o'r ymatebwyr yn dadlau bod angen rhagor o ardaloedd dynodedig ond yn argymell hefyd fod angen pwyllo ynglŷn â chynigion a oedd yn awgrymu y galla cymunedau arwain ar ddynodi ardaloedd lle byddai adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

- Mynegwyd pryder cyffredinol ynghylch sut y mae CNC yn gweithio. Y farn oedd nad oedd yn cael digon o adnoddau a'i fod yn ei chael yn anodd cyflawni ei rôl statudol. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at yr angen i fynd i'r afael â phryderon am y diffyg adnoddau ac am allu CNC i ysgwyddo'r cyfrifoldebau newydd a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori.

- O ran y sefyllfa ddeddfwriaethol, roedd llawer o'r farn fod y ddeddfwriaeth sydd yn ei lle eisoes ar gyfer cefn gwlad yn ateb y diben, ond nad oedd yn cael ei gweithredu a'i gorfodi'n iawn. Rhybuddiodd nifer o'r ymatebwyr rhag cyflwyno deddfwriaeth newydd heb wneud rhagor o waith dadansoddi ac asesu.

- Tynnodd ychydig o'r ymatebwyr sylw at y problemau a achosir gan lygredd amaethyddol gwasgaredig sy'n arwain at ewtroffeiddio dyfroedd, gan effeithio ar bysgod, y sector genweirio ac ansawdd dŵr. Roedd un ymatebydd yn argymell defnyddio gwellt ar gyfer mannau gorwedd gwartheg oherwydd y gallai hynny leihau faint o slyri hylifol sy'n cael eu rhoi ar y tir.

- O ran dŵr, awgrymodd un o'r ymatebwyr fod angen cydnabod y newid yn yr hinsawdd ac ymateb iddo drwy wella'r modd yr eir ati i asesu ac i gynllunio systemau trin dŵr. Mae angen gwneud hynny er mwyn atal rhagor o lygredd dŵr sy'n cael effaith niweidiol a hirdymor ar ein hafonydd. Wrth i ddulliau cynhyrchu mwy dwys gael eu cyflwyno ym maes ffermio, rhaid mynd ati mewn ffordd gryfach i orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn atal rhagor o niwed i gynefinoedd bregus mewn rhannau o Gymru.

- Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr gynigion ychwanegol i gryfhau deddfwriaeth ac i wella cyflwr ein hecosystemau. Mae angen datblygu rhwydweithiau ecolegol cryf, a sicrhau bod yr holl werth sydd i adnoddau naturiol ac i ecosystemau yn cael digon o ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, dylid ystyried camau cryfach i warchod Safleoedd o Bwysigrwydd Gwarchod Natur (SINCs) a choridorau sy'n cysylltu ecosystemau.

- Dywedodd yr ymatebwyr yr hoffent weld y polisi ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cydnabod ac yn diogelu'r cymunedau hynny sy'n llwyddo i gyflawni canlyniadau eang o ran bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol eraill – mae perygl y bydd economi'r cymunedau hynny'n agored i niwed ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

- Teimlai'r rheini a oedd o blaid y cynigion mai'r hyn sy'n allweddol er mwyn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru yw creu polisi gwirioneddol integredig ar reoli tir sydd â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn rhan annatod ohono.

- Roedd nifer o blaid y cynigion a gyflwynwyd oherwydd bod angen Polisi ar Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru a fyddai'n fuddiol i bobl Cymru mewn amryfal ffyrdd ac a fyddai hefyd o fudd i adnoddau naturiol a'r amgylchedd.

- Pwysleisiodd un o'r ymatebwyr fod angen i bolisi a rheoleiddio yng Nghymru beidio â bod yn rhy wahanol i'r hyn a welir mewn awdurdodaethau amgylcheddol cenedlaethol eraill. Roedd hynny'n bwysig oherwydd y gallai gwahaniaethau o'r fath danseilio'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd y mae cymaint eu hangen ar fusnesau.

## Atodiad 1- Rhestr o sefydliadau

| |
|---|
| Abergavenny Cycle Group |
| Advanced School of Game Angling |
| Afonydd Cymru |
| Agricultural Land Tribunal |
| Alliance for Welsh Designated Landscapes |
| Ammanford & District Angling Association |
| Ancient Tree Forum |
| Angling Cymru |
| Angling Trust and Fish Legal |
| Arete Outdoor Centre |
| Arfon LAF and BHS |
| Argoed and drum fisheries |
| Barmouth Bridleway Group |
| Betws-y-Coed Anglers Club |
| BHS County Access & Bridleways Officer - The Vale of Glamorgan |
| BHS Regional Access and Bridleways Officer for Wales |
| Bike Brechfa |
| Black Mountains Graziers Association East |
| Blackmill and Glynogwr Residents and Tenants association. |
| Blaenau Gwent County Borough Council (on behalf of Green Infrastructure team only) |
| Breacon Beacon National Park Local Access Forum |
| Bridgend County Borough Council |
| Bridleways group Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru |
| British Caving Association |
| British Cycling and Welsh Cycling |
| British Holiday & Home Parks Association |
| British Horse Society |
| British Horse Society |
| British Mountaineering Council |
| British Outdoor Profesionals Association |
| British Veterinary Association |
| Byways and Bridleways Trust |
| Caernarfonshire Branch of CPRW. |
| Caerphilly County Borough Council |
| Caerphilly Local Access Forum |
| Caerphilly Ramblers |
| Cambrian Mountain Initiative |
| Campaign for National Parks |
| Campaign for the Protection of Rural Wales - Brecon and Radnor Branch |
| Canal  River Trust |
| Canoe Camping Club |
| Capenhurst Angling Club |
| Cardiff Council -  Public Rights of Way team |
| Cariad Consultants |

| |
|---|
| Carmarthenshire County Council Flood Defence Section |
| Carmarthenshire Cycling Forum |
| Carmarthenshire Local Access forum |
| Carmarthenshire Riders |
| Carningli Common Graziers' Association, Newport Pembs |
| Carter Jonas LLP |
| Central Association of Agricultural Valuers (CAAV) |
| Ceredigion's Local Access Forum |
| Chainbridge Fishery |
| Chair - Wentlooge Community Council |
| Chair of Shropshire Scouts Caving Team |
| Chair of the Welsh Federation of Sea Anglers, Director and Vice Chair of Angling Cymru |
| Chair, Wrexham Local Access Forum |
| Chartered Surveyor |
| Chepstow U3A |
| Church in Wales |
| City of Cardiff Council |
| CIWM Cymru |
| Clifford Jones Timber Group |
| Clive Rees & Associates, Solicitors |
| Clywedog Sailing Club, Llanidloes |
| Coed Cymru |
| Combined Snowdonia North Local Access Forum, Snowdonia South LAF and the Arfon Dwyfor LAF |
| Committee of Meirionnydd Group of Ramblers |
| CONFOR |
| Conservation Officer: Campaign for the Protection of Welsh Fisheries |
| Constructing Excellence in Wales |
| Consumer Council for Water |
| Conwy County Borough Council |
| Corwen and District Angling Club |
| Corwen Anglers |
| Country Landowners Association |
| Crosskeys and Pontywaun Partnership |
| Crown Estate |
| Cwmbern Grazing and Livery |
| Cymdeithas Eryri the Snowdonia Society |
| Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council |
| Denbighshire County Council |
| Devauden Community Council |
| Dirt Magazine |
| Dyffryn Cennen Community Council, Ffairfach & Trap Carmarthenshire |
| Dyfi Biosphere Partnership |
| East Williamston Community Coucil |
| Eastern Valleys Local Access forum |

| |
|---|
| Edmonton Canoe |
| Ellesmere Riding Centre |
| Epic Rides Wales in Lampeter |
| Essex Bridleways Association |
| European Subsea Cables Association |
| Farmers Union Wales (FUW) |
| Farming Wildlife Advisory Group (FWAG) Cymru |
| Field Studies Council |
| Fisherman |
| Fishing for Schools |
| Flintshire Local Access Forum |
| Fly-tipping Wales and the Fly-tipping Enforcement Working Group |
| Ford Congregational Chapel |
| Former Forestry Commissioner and Wales Board Member for the Environment Agency |
| Friends of Bagillt Foreshore |
| Friends of Cwmcarn Forest Drive |
| FSC UK |
| Game & Wildlife Conservation Trust Cymru |
| Gamefishers' Club, Grayling Society and Wye & Usk Foundation |
| Grayling, on Behalf of the Landscape Institute |
| Green Lanes Environmental Action Movement (GLEAM) and the Green Lanes Protection Group (GLPG) |
| Guide Dogs Cymru |
| Gwent Angling Society |
| Gwynedd Council |
| Hounds Off |
| Institution of Civil Engineers Wales Cymru |
| International Rafting Federation |
| Isca Angling Club |
| Isle of Anglesey County Council |
| Keep Wales Tidy |
| Kingfisher Safaris |
| Lakeside Caravan Park |
| Land and Lakes Ltd |
| Land Access and Recreational Association and Autocycle Union |
| Lisvane Community Council |
| Llais y Goedwig |
| Llancarfan Community Council |
| Llandysul Angling Asc., W. Wales Rivers Trust |
| Llanelli Ramblers |
| Llanelltyd Community Council |
| Llanfair ar y Bryn Community Council |
| Llangollen Maelor Angling |

| |
|---|
| Llangors Community Council |
| Llangorse Lake Advisory Group |
| Llangorse Sailing Club |
| Llantwit Major Town Council |
| Llnafihangel Rydithion Community Centre |
| Llyn Coron Fishery, Anglesey |
| Llys Dulas Estate company Ltd |
| Mamhilad and Llanover Equestrian Groups |
| Marloes & St. Brides Community Council |
| Meirionnydd Group of Ramblers Cymru |
| Member of British Cycling / Welsh Canoeing / Outdoor Education Advisors Panel |
| Member of Midland Fly Fishers |
| Member of Poole Harbour Canoe Club |
| Member of Speleo Rhal Caving Club |
| Member of Wirral Caving Group |
| Menai Oysters and Mussels Ltd. |
| Menai Strait Fishery Order Management Association |
| Merthyr Tydfil Angling Association |
| Merthyr Tydfil County Borough Council |
| Merthyr Tydfil Local Access Forum |
| Meyrick Estate Management |
| Midland Fly Fishers/Welsh Dee Trust |
| Midland Flyfishers |
| Mineral Proucts Association |
| Monkswood Trostrey Fishery |
| Monmouth and District Angling Society. |
| Myneddiad Ceffylau Gogledd Cymru |
| Nantgwynau Farm. |
| National Association for Areas of Outstanding Natural Beauty |
| National Farmers Union (NFU) |
| National Gamekeepers' Organisation |
| National Trust in Wales |
| National Sheep Association – NSA Wales & NSA Welsh Commons Forum |
| Natural Resources Wales (NRW) |
| Neath Port Talbot County Borough Council |
| Newport City Council's Local Access Forums |
| North East Wales Biodiversity Network |
| North East Wales Bridleways Association |
| Northumberland National Park and County Joint Local Access Forum |
| Offas Dyke Association |
| Officer of Wealden Cave + Mine Society |
| Ogmore Anglers Association |
| Open Mountain Biking and Cycling UK |
| Open Spaces Society |
| Parkwood Outdoors Dolygaer |
| Pass Wide and Slow Facebook Group |
| Pembrokeshire County Council |

| |
|---|
| Pembrokeshire Local Access Forum |
| Penarth & District Ramblers |
| Pencelli Limited |
| Penrhyn Fishing Club (Ogwen River, Bangor Gwynedd) |
| Pisces Environmental and Fisheries Services |
| Pontypool Park Estate |
| Potanow Forestry LLP |
| Powys County Council |
| Powys LAF |
| Powys Moorland Trust |
| Prince Albert Angling Society |
| ProAdventure Ltd |
| Pure Land Expeditions |
| Ramblers Cymru Cardiff Group |
| Ramblers Cymru North Wales Area. |
| RAW Adventures – Snowdonia |
| Representing Ramblers in Lower Whafedale |
| Retirees Walking Group (Leader) |
| Rhiannon Passmore AM |
| Rhondda Cynon Taff Local Access Forum |
| Rhyl and St Asaph Angling Association |
| Richmond and District Angling Society |
| Ridgeway Angling Club. |
| Rosebush Fly Fishing Society |
| Royal Yachting Association and RYA Cymru Wales |
| RSPB |
| RSPCA |
| Rubber Duck Caving Club. |
| Salmon & Trout Conservation Cymru |
| Scottish Association for Country Sports |
| Sea 2 Summit |
| Seabed User and Developer Group |
| Selectafly Ltd |
| Sewin Fishery Customer |
| Smallholder with horses grazing on land where footpaths cross. County Councillor for the Ceiriog Valley. |
| Snowdonia Fly Fishing Guides |
| Soil Association |
| South Wales Caving Club |
| South Wales Gliding Club |
| South Wales Outdoor Activity Providers Group (SWOAPG) |
| Sport and Recreation Alliance and the Welsh Sports Association |
| St Dogmaels Footpath Association |
| St Dogmeals Community Centre |
| Swansea Amateur Anglers' Association |
| Swansea Local Access Forum |

| |
|---|
| Swansea Ramblers |
| Tarmac |
| Teifi Trout Association |
| TFA Cymru |
| The Coal Authority |
| The Green Lane Association Ltd |
| The Inland Waterways Association |
| The League Against Cruel Sports |
| The Narth and District Community Public Rights of Way Project |
| The National Coasteering Charter |
| The Nyth river Fly Fishers |
| The Pembrokeshire Remakery |
| The Welsh Dee Partnership |
| The Welsh Dee Trust |
| The Wye Catchment Conservators (WCC) |
| Tidal Lagoon Power |
| Tilhill Forestry Ltd |
| Tirabad Residential Educational Trust |
| Tom Hutton MTB Guiding (Company) |
| TOP Woodfuel & Sustainable Forestry |
| Torfaen County Borough Council |
| Torfaen Equestrian Group |
| Trail Riders Fellowship |
| Trefalun Park |
| Tregaron Angling Association. |
| Tregaron Walking Club |
| Ty Nant Outdoors |
| TYF – Good for Life |
| UK Assessment Panel of the IUCN World Commission on Protected Areas. |
| Usk Fishing Association |
| Un Llais Cymru / One Voice Wales |
| Upper Llangybi Fishery Ltd |
| Vale of Glamorgan Council |
| Vale of Glamorgan Local Access Forum |
| Vale of Glamorgan Ramblers |
| Vale of Usk Riding Club |
| Vice-chair Powys Area Ramblers |
| Volunteer Access representative for the British Horse Society |
| Wales Raptor Study Group NE |
| Wales Tourism Alliance |
| Walkers are Welcome Montgomery |
| Waters of Wales |
| Welsh Fisherman’s Association |
| Wildfowl & Wetlands Trust |
| Williams Rural & Commercial (Chartered Surveyors & Land Managers) |
| Wirral Game Fishing Club |

| |
|---|
| Woodland Strategy Advisory Panel |
| Woodlands Caravan Park |
| Member of the Wye and Usk foundation |
| Wye Salmon Association, Severn Rivers Trust, Angling Trust |
| Wye Valley AONB Partnership |
| Youth Hostel Association |